1-5-13

North Library.

Press mark. 11g. 13. 15.

Ent.d in Catalogue.

(1860)

1-5-13

North Library.

Press mark. 11g. 13. 15.

Ent.d in Catalogue.

(1860)

W S
150

Syr John Williams,
Barnwnig.

CYNGHORION TAD I W FAB:

Yn rhoddi iddo Gyfarwyddiad pa fodd i ymddwyn ei hunan yn y Byd preſennol.

Printiedig yn Llundain gan *J. Richardſon* yn y Flwyddyn 1683.

e fa-
ghau,

At y Darllenydd.

Ddarllenydd Cariadus,

AR ddymuniad dau o weinidogion cyfrifol o'm cydnabyddiaeth, myfi dderbyniais oddiwrth vn Henry Evans o Bedwellty, *yn ſir* Fynwy (*gwr anghydnabyddus i myfi o'r blaen*) *lyfr a gyfieithodd efe ar gân o Saeſoneg i Gymraeg, mewn pwrpas i fynnu ei brintio ef.*

Ac o herwydd mai da yw cynnorthwyo pawb ym mhob gorchwyl da, cyn belled ac y gallom ni, mi addewais fynnu ei brintio ef; *oblegyd fod y llyfr yn cynwys ynddo amryw bethau ac y ſydd yn tueddu i* wneuthur (*trwy fendith Duw*) rhai drwg yn dda, a'r da yn well: *Canys y mae yma fatterion gwedi eu goſod ar lawr, ac ſydd yn berthynaſol tuag ddechreu, a thuagat gynnyddu* edifeirwch, Ffydd, Duwioldeb, Sobrwydd, Amynedd, Trugaredd, Honeſtrwydd, Cyfiawnder, a doethineb yn nhrefniad ein buchedd, yn y byd preſennol hwn, *y rhai pethau ſy'n niffig mewn amryw leoedd yn ein gwlad, er eu bod i gyd mewn rhyw feſur neu gilidd yn angenrheidiol i iechydwriaeth, fel y dywedir*; Edifarhewch fel y deleer eich pechodau. *Act.* 3. 19. Cred yn yr Arglwydd Jeſu Griſt a chadwedig fyddi. *Act.* 16. 31. Ond gwybyddwch i'r Arglwydd nailltuo y duwiol iddo ei hun. *Pſal.* 4. 3. Ar yr annuwolion y glawia efe fa-

glau, tân a brwmſtan a phoethwynt yſtormys *Pſal.* 11. 6. Ni chaiff y rhai anghyfiawn etifeddu teyrnas Dduw. 1 *Cor.* 6. 9. Heb Sancteiddrwydd ni chaiff neb weled yr Arglwydd. *Heb.* 12. 14. *Ac am beidio dangos trugaredd y dywedir*, Ewch felltigedig ir tân tragwyddol, canys bum newynog ac ni roeſoch imi fwyd. *Matth.* 25. 41. *&c.*

Eithr o herwydd bod llawer o gymraeg Sir Fonwy *yn ddierth mewn bagad o Siroedd eraill yng*-Hymru, *ac am ryw reſymmau pwyſfawr heb law hynny, myfi a ddodais y rhan hyn o'r llyfr, ſy 'n dyfod allan yr ŵan, mewn gwiſc newydd mewn amryw leoedd o hono ; yr hyn, fel y gallo fod yn lleſhiol ac yn fuddiol ir darllenwyr, yw, ac a fydd yn rhan o weddiau*

Dy waſnaethwr yn yr

Abertawe y 12 *o*
Fis Mawrth,
1682.

Arglwydd

Stephen Hughes.

Cyng-

Cynghorion Tâd iw Fâb.

DEchre 'n gynnar waith ſancteiddrwydd; *Preg.* 12.
Nid ae byth yn dda 'n rhy ebrwydd: 1.
Dechre 'th ſhwrne ar foreu-ddydd:
Gochel aros hyd ganol-ddydd.
Da bod Dydd yn hwy nâ r llwybyr:
Tôſt bod gwaith heb Ddydd iw wneuthur:
'Rhyn ſy 'w wneuthur dwys-yſtyria,
Bwedd * *y gwnai di hynny gynta.* * pa ſodd.
Mae it gymaint o fuſneſſon,
Ac y dreulia 'th holl amſeron:
Na fydd ſegur un diwrnod,
Rhag ir gwaith fod heb ei † orfod. † Ddibenni.
Drwg it roi ir Diawl dy ſlode,
A Duw 'n aros am dy ffrwythe:
Mae Duw 'n haeddu dy waſaneth,
'Rhyn nid yw y Cythrel diffeth.

Am godi 'n foreu.

YN dra boreu * cwyn i fynu; * Cyfod.
Na chaed Haul di ar dy wely:
Ar y canniad cynta o 'r ceiliog,
Cyffro 'th hun, ac na fydd ddiog.
Torr dy gyſgu a' y wawr-ddydd:
Gochel yſpryd † claer di-ddeunydd: † Claiar.
D'amſer gochel ei cham-dreulio,
Nid oes dim ac ellych ſpario.
Amſer huno ſydd iw gyfri,
Megis amſer gwedi golli:
Cyſgu bair in' yn ddiamme,
Fyw ond hanner ein blynydde.

Cwyn yn awr, cae gyſgu 'th amcan,
Yn y Bêdd, mewn grô a graian.

Am fyſyrdod bareuol a hwyrol.

Pſal. 139. 18. YN dy gôf bid Duw gorucha,
O flaen dim, ac yn ddiwetha:
Pſ. 63. 6. Cau ac agor dy amrante,
Gydag eſ, bôb nôs a bore.
Pan yr ae di lawr ith 'ſmwythder,
Cofia 'r ae di 'n îs ar fyrder:
* Gyſodiad. Ac ar dy foreuol * gwnniad,
Meddwl am yr adgyſodiad.
Fel mae cwſg yn Arwydd Ange;
Felly mae 'n Deffroad ynte,
Yn mynegi 'n hadgyſodiad,
Ni pharhâ mor nôs yn waſtad.
Cân y Trwmpet, Dydd a wawria:
Y rhai meirw mi dybyga,
Bôd eu heſgyrn yn ymbwnnio,
Ai bôd nhwy yn ymgoſleidio.

Am Baratoad ir Farn.

GWna ôll fal am dragwyddoldeb;
Cofia ar fyrr rhaid rhoddi atteb,
Ger bron Barnwr cadarn, cyfion,
Jer. 17. 10. Sy'n gweld holl feddyliau 'r galon.
Yna rhoer y llyfre allan;
Dat. 20. 12. A'th weithredoedd fawr a bychan,
Fyddant 'yno wrth ei cyfri,
Naill a'i 'th Lâdd, neu 'th eſcuſodi.
Bydd fyw felly, fal bo i tithe,
* *Eox.* Fôd yn * hŷ ger bron y Brawdle,

Pan

Pan bo'r hôll weithredwyr gwallys, Dat. 6.17
Yno 'n crynu yn † echrydus. † Arwthrol.
Gwel na bo 'th gydwybod awchlym,
Ddydd y Farn yn Dyſt i'th Erbyn:
Cais trwy fyw yn raſol ymma,
Gau ei ſafan hi o'r ſiwra.
Er nas gelli trwy 'th weithredoedd,
Haeddu ar law Dduw mor Nefoedd,
Na chael byth dy gyfri 'n gyfion;
Etto bydd di fyw yn union: Gal.2.16.
Bydd fyw'n gynnil, da dy * anian, * Natur.
Fel pe baet i gadw 'th hunan:
Ond na † thrûſt ith wael weithredoedd, † Ymddiried.
Sy 'n rhy wann ith ddwyn ir Nefoedd.
Bydd di ſiwr i fynnu pardwn,
Cyn y delo 'r Barn, * ardolwyn. * Attolwg.

Am Ddiwydrwydd.

FAl y bo i ti waſnaethu,
Duw a'th hunan yn ddi-wegi,
Yn dy alwad bydd yn ddiwyd;
Na fydd ddiog na ſwrth hefyd.
Gwna 'n ddiôed yr hyn a wnelech,
Mor ebrwydded ac y gallech:
Gyda 'th law, rho 'th rym yn helaeth,
At bôb gwaith o'th alwadigaeth.
Cofia wrth weithio ar bôb amſer,
Nad dy daliad yw dy bleſſer:
Cyn gwnech orchwyl pwyſa 'n † ddi-fâr, † Diddig
Dy holl waith ynghyd a'th * wabar. * Gwobr.
Gwel pa fûdd ddaw o'th waith * yſtig, * Dyfal.
Gweithio am ddim ſydd beth blinedig:
Rhwn ni chaffo ffrwyth o'i || labar, || Lafur.
Siccr yw, y blina 'n gynnar.

Canol d'amſer union dreulia;
Pôb llŷs gwâg neu ſegur odfa,
Llanw rheini megis Criſtion,
A rhyw weithrediadau graſlon.
*Nâd ith * alwad bâch pennodol,*
Rwyſtro ar y † cyffredinol:
Rho beth amſer yn || brûdd ddigon,
I addoli 'r Arglwydd cyſion.
Rho i dduw ei eiddo 'n bur-lan,
Cymmer d'eiddo 'th hun dy hunan:
Amſer ſydd itt' dreulio 'n dduwiol,
A pheth it drîn d'achoſion bydol.
At bôb gwaith mae cymmwys odfa,
Dyſc di nabod hon; a choſia,
*'Rhyn a ŵnaer i * maes o amſer,*
Sydd *ddi-flâs, heb dôn na thymmer.*
Gâd waith diffrwyth ac afleſſiol,
A'r peth ſ' itti 'n am-mherthnaſſol:
Drwg ymmhyrru ag yſcall crinion,
Fel * *Domiſian*, heliwr cilion.
Ydyw hyn yn bwrcas uchel,
Cael ond mawr boen am dy drafel?
Dilês gwegryn dŵr neu dwod,
A gwaith gwell ag eiſie ei † draſod.
Digon itt' y gwaith ſydd reidiol:
Bwrw ymmaith waith afleſſiol;
Drwg yw itti 'n ddi-achoſion,
Ado 'th ſwydd a'th waith cyfreithlon.
Gweithia 'n awr, tra gelwir heddŵ,
Arall ſ'alle bie foru;
Cans bran ŷm fel lleſtri gwydyr,
*Hawdd y torrir ni yn * glechdur.*

* *Creſſt, hwſmonaeth.*
† *i addoli Duw.*
|| *Diſrifol.*
* *Allan.*
* *Emprwr a dreulie amſer i ladd gwybed.*
† *Ymorcheſt yn ei gylch.*
* *Gandryll.*

Am

Am Ddifyrrwch.

GWna 'th ddifyrrwch o'r fath bethe,
'Weddo ith lê, a'th gyflwr ore:
Yntho treulia ond amſer bychan,
Ac ychydig iawn oth Arian.
Yn rhy ddrŷd na phrŷn dy bleſſer;
Mawr brîs lwngc o'th gyſſur lawer:
Gormodd pleſſer gochel hefyd,
Rhag cael drwg ith Gorph neu'th iechyd.
Gâd ddifyrrwch rhy fenwaidd,
Hoffa 'rhyn ſo mwyaf gwraidd:
Nid yw 'n weddaidd i wrwod,
Fôd yn debig ir * murſennod.

* *Coy dames.*

Am y gwaith pennaf.

NId difyrrwch yw'th waith penna:
Ir Bŷd hwn ni ddoeſt (yſtyria)
Megis pŷſc ir moroedd mawrion,
I ymlenwi ar † drythyllon.
Chwyſſu y ſydd rhaid am Fara;
Cadw 'r Enaid yw'r gwaith penna:
Tragwyddoldeb hîr ſy'n pwyſo,
*Ar ein * munud ferr, (ai wirio)*
Yn ôl 'ſtyried hyn o bob tu,
Bydd di ſegûr (ddyn) os gelli:
Mewn diwydrwydd bydd 'wllyſgar,
Fal yr haedda 'th waith a'th wabar.
Na fodlona ddim o'th hunan,
Os gwnei rhyw ddaioni bychan,
Neu os moli, ambell dippin,
Ar y gwir a'r graſſol Feenin.

† *Pleſſerau.*

* *Hamſir.*

Haedda

Haedda 'r neſoedd wenn oruchel,
Dy fawr boen; hi dâl dy drafel:
Rhêd dy yrfa, di gai'th wabro:
Ennill goron, di gai' gwiſco.

Am Siccrwydd am y nef

* *Difrifol.*

BYdd yn * brûdd am fatter d' enaid:
Cais Dduw 'n rhan, a'r neſoedd auraid:
Pſal. 73. 26. Ofna, nes y gallech ddwedyd,
Mat. 6. 33. Duw yw 'm heiddo, a'r nêf hefyd.
Na'm foglona ddim i aros,
Yn ddi-Griſt, mewn ſtâd anniddos:
* *uffern.* Pam y crogi uwch y * boeth-ſan,
Megis wrth edafedd egwan.
Mynych ofyn it' dy hunan,
Wyt mewn Fafor â duw weithian?
A pha ſiccrwydd y ſydd gennyd,
Am y nefol Deyrnas hyfryd?
* *Na ddod mewn enbidrwydd.* Na * Pherygla dy hapuſrwydd,
Gwna fawr brîs or nêf yn ebrwydd:
Ac na chytcam fyw yn ddryg-ddyn,
Rhag it' ofni marw gwedyn.

Am rodio wrth reol.

RHodia 'n ôl y rheol union,
Llunia wrth reſwm da d' orchwylion:
Na wna ddim peth anolygus,
It' a'th broffes yn gwilyddus.
Cilia rhag pôb tramcwyddiade,
1 Theſ. 5. 22. Sy'n dwyn ynthynt rith ar ddryge:
Dihar. 22. 1. Priſſia 'th Enw da bob ennyd:
Cyn ei golli, coll dy fywyd.

Trîn

Trîn yn gâll (mewn pwyll) d' achoſion:
Cadw 'th gredit gyda 'r Doethion:
Bydd di 'n dduwiol, a ſynhwyr-gall:
Cyd-dymhera zêl â deall.

Am fyw dan gyſtyddie.

I Stâd iſel rhaid it blygu;
Ac ir groes rhaid ymagweddu:
Gwachel chwyddo uwch-law 'th foddion;
Bydd i fforten ferr yn fodlon.
Ar y ſtorm rhaid goſtwng hwylie,
Rhoi peth lle mewn drwg amſere:
Dan rhyw aden fawr cais gyſgod.
Nes bo 'r ſtorom wedi darfod.
Y llwyn bâch * ynglais cederwydd,
Y gaiff gyſgod ar y tywydd:
Felly caiff y gwan-ddyn, coſia,
Oddiwrth fawr-glod ŵr ddiffynſa.
Dwg dy faich yn * llonn fel criſtion,
Gwna gyſtyddie 'n ddi-gyſtyddion:
Scorna † 'r hyn nas gelli wrthod;
Ni cheir da oddiwrth * ymdrafod.

1 *Tim.* 6. 8. *Mat.* 10. 16, 23.

* *Yn ymyl.*

* *Llawen.*

† *Dibriſſia.*

* *Ymryſſon.*

Am gyfaillgarwch

YN ochelgar bydd yn waſtod:
Nâd i bawb a'th wêl dy nabod:
Bydd wrth bawb yn fwyn, yn hawddgar;
Ond â 'chydig yn gyfeillgar.
Nid yw pob-dyn * ffit it dderbyn,
I dy ſonwes megis glan-ddyn;
Ffallſt yw rhai; prawf cyn ymddiried:
Bydd fel dierth 'myſc dieithriaid.

* *Cymmwys.*

Nac

Nac amlyga 'th hun yn angall,
Nes gwybyddech beth yw arall :
Rhwydd ymadrodd ſydd ynfydrwydd,
Ac yn tynnu ſenn a gwradwydd.
Taw, gâd ffoliaid câs i ddwndraw,
Nid oes drwg o fod yn ddiſtaw :
Ou geiriau 'r fontais elli gymryd,
Gaent hwy arnat ti wrth ddwedyd.

Am Wiſcoedd.

BId dy ddillad yn dra gweddaidd,
Nid rhy goſtfawr, na rhy * fflawntaidd :
Yn y ffaſhiwn na fydd flaena :
Gochel hefyd fod yn ola.
Gâd y faſhiwn na bo 'n un-man ;
Ffôl y gâr bôd wrtho ei hunan :
Ffurfia 'th wiſg yn ôl yr arfer,
Ym mhle bech, rhag cael bychander.
Na fydd megis rhyw afrad-ddyn ;
Tor dy bais wrth hyd dy frethyn :
Gweddus i fonheddig cymmen,
Fwy 'n ei bwrs nag am ei gefen.
Nes y gwypper beth yw 'th haeddiad,
Dwg dy ddillad it gymmeriad ;
Dillad ennill itti hefyd,
Gyda 'r Byd rhyw glôd a chredit.
Na falchia am dy hunan,
Am dy fod mewn Aur a ſidan :
Os wyt werthfawr ond mewn dillad,
Am dy hun bid gwael dy dybiad.
Mwy o glôd it harddu 'th ddillad,
Na chael d' harddu gan dy wiſgad :
Bid cynheddfau da 'n dwyn itti,
*Nid dy Ddillad fwyaf * cyfri.*

* *Yn llawn tegan.*

* *Credit.*

Am Draul.

YN dy draul, bydd yn gymhedrol,
Nid rhy hael, na rhy gybyddol :
Gwybydd b'wedd i gadw a threulio :
Treulia ar achos da pan gorffo.
Gwilia 'n waſtod, gwêl er hynny,
Nad aech ddim tu-hwnt i'th allu :
A phan gwnelech gymmwynaſſon,
Gwna bob peth ar ryw ddibennion.
Ond gweithredoedd 'ſo berthnaſſol,
I dwrn da, neu gariad brawdol ;
Am y cyfryw ddoeth weithredon,
Na chais byth mor tâl gan ddynion.
Gochel afrad, rhag cael pringder ;
Tynnodd afrad dlodi ar lawer :
Gwaeth nag Ange yw tlodi anghenol,
Ir cwilyddgar a'r ſynhwyrol.
Treulia'n ôl dy ſtâd a'th ennill,
(Toſt yw gorfod byw ar erill)
Goſod allan lai yn waſtod,
Nag y ſydd i mewn yn dyſod.
Da fod peth gan ddyn ei hunan,
Pan y delo amſer griddfan :
*Moddion * da yw 'r lloches ore,*
Pan y delo trwm gafode.

* *Golud.*

Am yfed.

NA fawrhâ y gwîn yn un-man,
Pan gwrychiono yn y cwppan ;
Nid er hoffder ond er ſyched,
Y mae gwîn a diod iw yfed.

Gochel beunydd bob rhyw bechod,
Yn enwedig gochel feddwdod :
'Does un pechod mor gwilyddus,
Mor nifeilaidd, mor annhrefnus.
Newid meddwdod ddyn yn Nifel,
Fe yrr reſwm i ymadel :
Mae 'n ein gwneuthur i gynghorau,
Yn * anffit, ond rhwydd i ddrygau.
Beiau eraill ſydd yn un-llŷn,
Hwn ſy â llawer yn ei ganlyn :
Tyngu, rhegu, brawlan erchyll,
Sy 'n ei ddilyn megis perchyll.

* Anghymwys.

Am Fwytta.

AR Gèg ddrwg rho 'r gyllel lemma ;
Gochel wneuthur Duw o'th fola :
Yn dy ymborth na fydd foethus ;
Goreu ſaws yw ſtymog iachus.
Chwennych ymborth ſydd iachuſol,
O flaen bwydydd prîd daenteithiol :
Pleſſer tlawd yw pleſſer genau :
Byth na chwennych amryw ſeigiau.
Y mae gwlèdd lle bo bwyd ddigon :
Mwy nâ'th fol nad fod d'olygon :
Ith nattur 'chydig a waſnaetha,
Porthi 'r chwant yw diben bwytta.

Eccl. 3. 19.

Am Gwmpni, ac healths, a thai drwg, ac afrad.

CAis yn Griſtion da dy gyfri,
Nid yn gyfaill da mewn cwmpni :
Nàd i ymbiliaeth dyn un-amſer,
D'yrru 'fynd tu-hwnt ith dymmer.

Na fodlona neb yn un-man,
Mewn un peth, a'th ddrygo 'th hunan:
Pwyſa 'n bwyllog ac yn gyſſon,
Bwêdd * i agweddu â'th gyſeillion.
Gâd ith gwmpni lwyr † ddiſbleſſio,
Cyn yr helech Dduw i ddigio:
Cofio ffrind ſydd beth cyfreithus,
Yfed helths ſydd beth anweddus.
Drwg yn fynych ddaw o heltho,
Meddwdod, brawlan, ymladd, dwndro.
Dros dy ffrind dôd weddi wiw-lan,
Yf er iechyd it dy hunan.
Bydd di ſobor a gweddeiddlon,
A chyrch at y fath gyfeillion:
Gochel gwmpni drwg ei tymmer,
Rhag i tithe ddyſgu eu harfer.
Or doi i fyſg y cyfryw gwmpni,
Dangos nad wyt yn eu hoffi:
Byth na ddilyn eu harferion:
Gâd ar frys y fath gyſeillion.
Ac na ddere attynt mwyach,
Mae 'r fath rai 'n mynd ffolach, ffolach:
Ti a'u blini hwynt â'th ſobrwydd;
Tithe ſlinir â'u hynfydrwydd.
Gochel leoedd fo drwg dybus,
Cilia o dîr y ſarph anhappus:
Goreu ffordd it gadw'th hunan,
Yw gochelyd llwybrau Satan.
Cadw 'th † ſaſle rhag it ſyrthio,
Na thempt Demptiwr i dy demptio:
*F'alle gall cydwybod * wario,*
Mwy nag all dy gredit ſparío.
Gochel Anair byth, a gwilia
Rhagddo, fal rhag drwg o'r caſſa:
Haws yw colli (cofia || ſ'anraith)
Enw da nâ'i gael ef eilchwaith.

* Pa fodd
† Anfodloni.

† Seſyllfa.
* Treulio.

|| Anwyfyd.

Na

† *Anhemprus.*

Na châr weld rhai yn † anghyſſon,
Ynfyd yw difyrrwch ffolion ;
Pam y ceri mewn un dynan,
'Rhyn nis ceri yn dy hunan ?
Dros ben ſobrwydd na yrr un-gwr,
Paid a gweithio dros y temptiwr ;
Na wna neb yn anghymedrol,
Ond cais rwyſtro hynny'n hollol.
Pa lawenydd (rwi'n rhyfeddu)
Yw gweld arall gwedi meddwi ?
Golwg drîſt yw hyn (im deall)
Weld drwg un, a chwilydd arall.
Peri eraill i bengoccio,
Cael y gore wrth garowſio,
Nid yw fatter o orfoledd,
Cans am hyn daw tôſt ddialedd.

Eſay. 5. 11.

Ac yſtyriwch hyn yn helaeth,
Nad oes blâs or ſuddugoliaeth,
Lle mae 'r Cythrel yn Ben-ſwyddog,
A phwll uffern yn lle cyflog.

‖ *Wantan.*

Cadw 'n iſſel dy Gorph ‖ nwyfus ;
Bydd oi beſgi 'n afreolus ;
Rheitiach rhoi 'ddo ffrwyn nâ ſpardyn ;
Yn dy law bid dynn y llinyn.
Na rô ith gerph bob peth a geiſio ;
Dyſced chwennych ond ſydd gantho ;
Da it weithie gael dy * ragod,
Mac rhyw † dda, ryw bryd, iw wrthod.
Gwell it' fynd ym-mlaen wrth raddodd,
Heb afradu 'th dda na'th Dirodd,
Na byw 'n foethus dros ryw amſer,
Gwedi hynny byw fel Beger.
Arfer bob peth yn gymheſſur ;
Na fydd * ſtuf i un creadur ;
Cyfa bob peth fel i gilydd,
Iſſel fir fel moethus fwydydd.

* *Rwyſtro*
† *Pethau moethus.*

* *caith-ras.*

Gochel

Gochel fyth fod yn hiraethu,
Am un peth ac wyt ti'n garu : *Phil.* 4.
Bydd mor fodlon i fod hebddo, 11. 12.
A phe bae ym-myſc dy eiddo.
Dyſc pa wêdd i ddwyn anghenyd,
A byw * *'chlaw dy foddion hefyd:* * *Ar Dduw.*
Nâd ith galon gael † *gartrefad,* † *Trigfa.*
Yn dy law, nac yn dy lygad.

Am Ddiolchgarwch.

Bydd ddiolchgar am ſydd gennyd ;
'Rhwn ai rhows rhy etto hefyd :
Os * *cas eraill fwy o bethe,* * *Caſodd.*
F'alle fod yn fwy eu heiſie.
' Rhwn y wnaeth y Llong neu' r lleſter,
Sydd yn gwybod † *b'wedd iw arfer ;* † *Pa fodd.*
Hwnnw feder ei gymhwyſo,
At y llwyth y rydd ef ynttho.
Pa beth bynnag wyt yn * drafod, * *Yn ei drîn ai feddianau.*
Anniolchgarwch ai gwna 'n ormod :
Os yw 'n beth iſ-law 'th ddymyniad,
Mae uwch-law (bydd ſiwr) dy haeddiad :
Rheſwm da rhoi mawl am dano,
Goreu ffordd yw honno i feggio :
Mewn rhyw ddull, mae 'r ŷch, mae 'r Aſſen, Eſay 1. 2. 3.
Am eu bwyd yn diolch iw perchen :
Gwarth yw, bod nifeiliaid mudion,
Yn rhagori ar blant dynion.

Am chwilio 'n hunain.

CHwilia 'n ddyfal eraill allan,
Ond yn gynta chwilia 'th hunan :

Gwachel fynd mor bell mewn ſhwrne,
Nes beeh di 'n anghofio 'th Artre.
Na fydd ddierth it dy hunan,
Edrych yn dy freſt yn fuan:
Onid wyt ti wrth dy feddwl,
Cais well-hâd, yn glai, yn gwbwl.
Lle mae nattur yn ddeffygiol,
Bydd ith nattur gynnorthwyol:
Ymorcheſta i'm-gymhwyſo;
Pſal.51.5 Ganwyd ti 'n ddrwg, rhaid d'eni etto.
Joan.3.3.

Am roi i bawb eu heiddo.

RHo i bawb eu heiddo 'n hawddgar,
Parch i rai, i eraill wabar:
'Rhyn ma' 'n haeddu rho i bob-dyn,
Rag bod Achwyn yn dy erbyn.
Ac os cam â neb a wnaethoſt,
Gwna di iawn yn gynta 'g alloſt:
Edifara am dy bechod,
A llonydda dy gydwybod.
Gwna gyttundeb âth wrthnebwr,
Cyn y delo Criſt y Barnwr:
Mat.5.25 Duw ſy o ran y rhai diniwed,
† *ſe ble.dia.* † Dadliff dros y cyfryw 'n galed.

Am Eluſen.

YN ól d' allu rho 'th eluſen
Ir rhai tlawd, yn ól eu hangen:
'Rhyn y roech ir tlodion cyfri,
Megis benthyg, 'rhyn nis colli.
Diar.19. *Y mae gennit wŷch Fachniwr,*
17. *Duw ei hun ſydd dy Dalmentwr:*
Ei dryſſor-dy yw pwrs y Beger,
* *Dderbynwr.* *A'r Dyn tlawd yw ei* * *Receiver.*
Os yw'r Dŷn y ſydd anghenus,
Yn anhywaith a drygionus,

Er

Er mwyn Duw rhô ryw beth iddo;
Fel mae 'n Ddyn, toſturia wrtho.
Os am-mheu roi 'th * *elwſon,*
Am nas gwyddoſt pwyſydd dlodion:
Dyro beth ir caccwn garw,
Cyn ir gwenyn bach gael marw.
Gwell rhoi, lle nad oes 'lwyſendod,
Nag heb roi, fod tlawd mewn prindod.

* Eluſennau.

Am *Ddyſceidiaeth.*

GWachel fod fel coeg Ddyſcawdwr;
Yn fynychaf bydd gweſtiwnwr;
Gwell it' ofyn peth nag atteb:
Pam na 'nilli di 'r callineb?
Hyn rydd cynnydd ith wybodaeth:
Clûſt, nid taſod, ddwg ddyſgeidiaeth:
'Mofyn nes y bech heb wybod,
Ddim ychwaneg idd i nabod.
Ac tra fech mewn angnabyddiaeth,
Na chwilyddia gael dyſceidiaeth:
Odid oni chlywaiſt draethu
Nad rhy hwyr un prŷd it ddyſcu.
Os y ffaelu gael bodlonrwydd,
Am ryw byngciau, trwy 'th ddiwydrwydd,
A thrwy ſtudio wrth dy hunan,
Cais gan eraill help yn fuan.
Ni chŷd-ddeall pawb yr un-peth,
'Does un dyn a phôb gwybodaeth:
Os rhoi ddyſc i un, ſ'all ynte,
Mewn rhyw ffordd roi dyſc i tithe.
Priſſia 'n uchel, ddwys ddyſgeidiaeth,
Felly 'r ae 'n fonheddig odiaeth:
Dyſg a'th ddwg i fawr anrhydedd,
Heb gynnorthwy un * *Herodredd.*
Prawf yn † aſtud fyth i ſtudio,
Y ddyſgeidiaeth a'th fodlono:

* Gwr yn tynnu achau.
† Ddyſal.

F'ellir disgwyl ennill lawer,
Lle bo'r poen yn ddirfawr blesser.
Os 'nôl golud 'rwyt ti 'n Helwr,
Bydd Gyfreithwr neu Besygwr:
O'r ddau alwad hyn, o ddifri,
Dwbwl gyflog a ennilli.

† *Sy'n gwybod.* Gwr o gyfraith † wŷr yn groew,
* *Pa fodd* * Bwedd i ennill stâd, a'i chadw;
A'r Pysygwr ynte hefyd,
Ddaw i olud, ac i iechyd.
Im tŷb i, nid oes yn hollol,
† *Ennillfawr.* *Un rhyw alwad mor † broffidiol,*
Ac yw galwad y rhai ymma,
Sydd ar frŷs yn cael eu helfa.
* *Nis gosodant mewn enbydrwydd* 'Rhyn sydd ganthynt nis * peryglant;
A ddaw attynt hwy ennillant:
Nid rhaid iddynt fynd tros foroedd,
Er mwyn ennill tai na thiroedd.
Bid dy lyfre ond ychydig,
Etto 'n dda a dewisedig:
Yn waeth' sclaig ni byddi ronyn,
† *Ben.* *Pe bae 'th lyfre yn dy † goryn.*
Nid oes genyt ddysc na donnie,
Ond yr hyn sydd yn dy asgre,
Eiddo 'r Awdwyr yn ddiammau,
Ydyw 'r Ddysc s'o fewn dy lyfrau.
Pe bae llyfrau 'n abal gwneuthur,
† *Pun bynnag ai Eglwyswr, ai Cyfreithwr, ai Pysygwr, neu Gyffredinwr wŷt ti.* *Dyn yn berffaith sclaig difessur;*
Byddei 'r Gwyr sy'n gwerthu llyfre,
Mwyaf gwyr eu dysgeidiaethe.
Dewis lyfrau fo 'n cyttuno,
Ath † broffessiwn; a phrawf gofio,
Wrth ei faint na phrisiech lyfyr:
Bid ei dda yn fwy nâ'i bapyr.
Darllen wŷr, a darllen lyfrau;
Hwy berffeiddiant dy synhwyrau:

Etto

Etto canlyn yn eu rhedfa,
Y rhai da, ac nid y dyrfa.
Ac na ddilyn y rhai gore,
*O*nd cyn belled y bo nhwynte
Yn Ddilynwyr * prûdd ir Ieſu : * *Diſri-*
Gwachel feiau *Pawl* a *Mary*. *ſol.*
Cyſtydd eraill pan digwyddo,
Y ſydd gennad ith rybyddio :
Dyſc Ddoethineb trwy hynfydrwydd :
Gâd y fan lle cawſant wradwydd.
Y canlynwr ſydd yn ennill,
Montais oddiwrth gwympau eraill :
Mae'n gweld perig, cyn dêl iddo ;
Ac ni ellir ei † ormeilio. † *Ortrechu*
Ar dy ddeall dôd derfynnau :
Na chais wybod dirgel bethau :
Synwyr yw it ymfodloni
Ddyſcu'r peth ſydd raid i ddyſcu.
Gwybydd ble mae 't ſtoppo 'n waſtod ;
Gàd beth trwm nad rhaid it wybod :
Studia 'r peth ſy ddiogel i ti ;
Gochel * *Etna* rhag dy loſgi. * *Mynydd*
Ffrwyth gwarddedig gwachel deimlo ; *mawr, o'r*
Nac archwaetha ddim o hono : *hon y mae*
Pallwyd pren gwybodaeth itti ; *tân yn*
Gwyddoſt beth a ddaeth oi brofi. *dyfod*
Na fydd falch am ddyſc, na donie, *allan.*
*O*nd bid iſſel dy feddylie :
Barna 'th hun yn îs beth hefyd,
Nag 'bo eraill yn dy gymryd.
Goſtyngeiddrwydd a mwyneidd-dra
Ddŷg it glôd o'r godidocca :
Balchder a drŷ lawr yn * *irad,* * *Yn doſ.*
'Rhyn a ddlye gael derchafiad.
Dy dŷb da am dan dy hunan,
Na oſoded di ar un-man,

'Fo fel pinacl anghyſſon,
† 'Ddar hwn ſyrthiodd rhai Angelion:
† *Oddi ar 2 Pet. 2. 4*
Ir * *drwg hwn y mae tueddfa,*
* *Sef balchder.*
Yn y Dynion godidocca:
Rhyfedd fod darllenwyr ffel-gall,
Yn balchio am blŷf un arall.
Nid oes ganthynt ond y * ddygſon,
Y ſenthygſon, ac y † fegſon.
* *Ddygaſant.*
† *Fegaſant.*

Am drafaelu.

PAn y bech di oddi gartre,
Cadw 'n glôs at Ddyledſwyddo:
† *Trwy weddi.*
Cais † gyfrwydd-deb y boreu-ddydd,
* *Pa fodd*
* Bwedd i ymddwyn trwy yr holl-ddydd.
Pan dêl nôs, ymhola 'n waſtod,
Beth a wnaethoſt trwy 'r diwrnod:
|| *Gwnaethoſt.*
Lle || *gwneſt bechod, deiſyf bardwn:*
* *Attolwg.*
Am dy dda, rho ddiolch, * *ardolwn.*
Bydd dda 'myſc rhai oddi allan,
Megis yn dy Artre 'th hunan:
Er dy fôd yn newid treigle,
Bydd (er hyn) yr un, ym-mhob lle.
Bydd yn iſſel yn d'ymddygiad,
Ac mor hael ac elli 'n waſtad:
Cydymffurfia neſſa 'g allech,
At y wlâd a'r man lle byddech.
Na fydd di, ar un-rhyw amſer,
Yn llawn gwagedd, neu lawn balchder:
Sawl na'th nebydd wrth dy dafod,
VVrth d'ymddygiad dônt ith nabod.
Na ddal ar bob peth a ddywaid,
Yn dy gwmpni y dieithriaid:
† *Chwmpara'th hun.*
Gochel farnu 'n galed arnyn,
Na ‖* *chydſtadla â nhwy ronyn.*

Ond

Ond os rhaid it roi ar brydie,
Farn yng-hykch rhyw fath ar bethe;
Os bydd rhai yn anfodloni,
Na faif wrthi, dwed † *Peccavi.*
Mewn lledierth, na wna gŷnnen,
Ar ceilioge ar eu tommen:
Nac ymryſſon yn ei efel,
Ag un gôf, or' dwyt ti'n ddyn-ffel.
Gwachel win a gwragedd || nwyfys
Megis Scyla a Charibdys:
Craig yw'r un, a'r llall ſydd lyngc-llynn,
Wrth † ymdeithio, cadw rhagddyn.
* Pen a chalon cadw 'n iachus,
Felly nid rhaid bod yn ofnus,
Rhag ar Graig it gael dy frîwo,
Nac ar Lyngc-lynn byth it ſuddo.
Cadw 'th fuſnes it dy hunan;
Rhag dicithriaid cela 'th arian;
F' all fod perig o'i datcuddio,
Ac mewn Tafarn drwg letteuo.

† *Mi gam ſynniais. Gwell ynte yw diſtewi.*

|| *Wantan.*

† *Trafaelu*

* *Dy ben rhag gwin, a chwrw, a'th galon rhag putteiniaid.*

Am Gerydd.

PAn bo dyn iw argyhoeddi,
Cofia 'r lle, ar prŷd, a'r parti:
Rhaid it arfer mawr ddoethineb,
Os ceryddu mewn ffyddlondeb.
Os bydd e'n uchelwr, * Synna,
Arfer † ragor o fwyneidd-dra;
Gyda 'th gyd-râdd bydd hyderus;
Gyda 'th îs bydd mwyaf || mentrus.
Rho dy gerydd wrtho ei hunan,
I dy ffrind ar reſwm gwiw-lan:
F' all ar nailltu wrando a'ſtyried,
'Rhyn na fynne i eraill glywed.
Na rò gerydd * maes o amſer,
Pan bo dyn † yn ddrwg ei dymher:

2 *Tim.* 2. 25.

* *Gwiliaſ*

† *Tchwaneg.*

|| *Hŷf, con.*

* *Allan.*

† *Yn feddw, yn ddig, neu maes oi gôf.*

Edrych am y prŷd cymhwyſa ;
At bob gwaith mae cymmwys odſa.
Pan ceryddu dy gymmydog,
Gwachel ſod o'i fai yn euog :
Mat. 7. 3. † *B'wedd y bei-i ar neb arall,*
† Paſoad *A bod dan 'r un bai yn ang all.*
* Fel hyn. * Llyn 'r amlygu di yn ddiau,
Gàs at ddyn yn fwy nà 'i feiau :
A'r fath gerydd byth nis gellir,
I roi 'n dda, a da nis cymrir.
Am hyn gâd dy fai yn ddiwall,
Cyn ceryddech di neb arall :
Rhag ir maen hwn ſyrthio a diſgyn,
Yn ei gwrthol ar dy gobyn.
Os gwllyſſi ith gymdogion,
I lwyr fyw wrth dy gynghorion ;
Na chynghora iddynt wneuthur,
‖ Llawer. Ond y wnei dy hun yn ‖ ddifyr.
Gwybydd hyn mae 'r rheſwm goreu,
Byth a geſclir oddiwrth ſiampleu :
* O ddiſri. Hyn eglura 'th fod o * bryſſyr,
† Anwain Pan bech d' hun yn † ledio 'r llwybyr.
Gwymt yw geiriau, gweld yw credu,
‖ Gorchymmynion. *Siamplau weithia fwy nag ‖ erchi :*
Drwg ei fywyd, Da ei gynghor,
Nid yw hwnnw ond fyng watwor.

Am gyſodi wrth radde.

* Allan. Dòs i * maes dan iſſel hwyle,
† Cyſod. Rhag dy dorri, † cwyn wrth radde :
Gwell trwy bwyll yw codi (gwrando)
Nà 'n rhy cbrwydd godi a chwympo.
* Afradys *Er bod hwyl-wynt, na fydd * 'frado!,*
Fe all droi, mae fo 'n newidiol :
'Smonna 'th ſtock, na threulia ormod ;
* Shwrne. * *Taith cyn arian ddlye ddarfod.*

Diraid

Diraid yw gormoddion (gwrando)
Nid yw raid it hefyd † ſtarfo:
Rhwng cynhildeb ac afradwch,
Gelli fyw mewn gwych lonyddwch.

† *Newynu*

Am ymddial.

PAn cei gam, na chymmer arnad,
Fel pe baet yn gweld â'th lygad;
Neu * dibriſſia fel peth ‖ anial;
Na fydd chwyrn i dalu dial.
Na ddal ſulw yn ddiyſtyr,
Ar bob di-bwyll Air a ddwedyr:
Dôd ar eiriau'r yſtyr gore,
Na cham ddeall neb yn un-lle.
Trwy ſhawns ſ'alle, nid o'wllys,
Y † gwnawd itti beth anweddus:
Oh! na ddryga di yn un-modd,
'Rhwn a'th ddrygodd di oi anfodd.
*Os trwy fwriad gwnawd * direidi,*
Gweddus galw'r Dyn i gyfri;
Etto, nid yn ebrwydd, coſia;
‖ Pwynted pwyll y cymmwys odfa.
Yna bydd fel Gwr o galon;
Etto 'mhob peth, bydd fel criſtion:
Gochel beri'r coſp un-amſer,
I ddirywio i greulonder.
Er mwyn taro braw yn erill,
Da yw coſpi Dynion erchyll:
Etto rhaid yw bod yn dirion,
On'd yw'r bai yn droſſedd creulon.

* *Sef y cam*
‖ *A wnaeth-pwyd mewn anialwch.*
† *Gwnaeth-pwyd.*
* *Cam.*
‖ *Ordeinied.*

Am ymryſſon.

NAc ymryſſon â'th iſſelach;
Nid clód itti ddadle â'th wannach:
Trwy wâg ſiarad nid ennilli,
Ddim mewn un modd ith fodloni.

Siwta Feger tlawd heb gerpyn,
Hawdd it wybod beth y ganlyn :
Ofer iawn y fydd dy labar;
Colli 'th gôſt a'th amſer hygar.
Gwell it adel dlêd ai fadde,
Lle ni 'nilli ddim oth goſte :
Toſt yw treulio dèg o bynnau,
Lle na 'nillir mo'r dimmeiau,

Am Fachniaeth.

* *Dyn.* NA fydd Feiche dros un * Dynan,
Oni elli gadw 'th hunan :
† *Dyſal.* Mae 'r Benthyccwr yn wâs † yſtig,
Ir hwn ſydd yn rhoddi benthig.
Rwyt ti 'n gaeth-was ir ddau weithian;
Dan y baich mae 'th warr dy hunan ;
Rhwn a orwedd yno 'n galed,
A nhwy 'n chwerthyn wrth ei weled.
Os ni elli 'ſgatfydd dalu,
Y trwm ddlyed hwn o ddifri ;
Blîn ſydd colli 'th rydd-did hygar,
Trwy dôſt aros yn y carchar
Dymma 'r peth yr wyt ti 'n haeddu,
Pan y rhwymaiſt d' hun i dalu
Dlyed arall trwy fachniaeth,
* *Oeddyt.* Pan yr * oet mewn rhydd-did odiaeth.

Am wêdd heb rinwedd.

1 *Sam.* 16 7. NA wna brîs o ddŷn na phethe,
Wrth eu l'un, nac wrth eu lliwie :
Ond yn ôl y rhinwedd ſ'ynthyn,
Priſſia bob peth megis doeth-ddyn.
Cerrig *Briſto* allant edrych,
Fel y Diamond diſclayrwych :
Na wna brîs o ddim golygys,
Nes bo'i ſylwedd itti 'n hyſpys.

Nid

Nid gwell llyfyr er ei glaſpe ;
Nid gwell Dyn er ei feddianne ;
Nid gwell ffôl er côt o'r hardda ;
† Modrwy mewn trwyn hwch ſy gaſſa. † *O aur.*

Am oſtyngeiddrwydd.

BId dy dŷb am dan dy hunan,
Yn dŷb iſſel (hyn ſydd * wiw-lan) * *Weddus.*
Goreu dyn yw 'r goſtyngedig ;
Ond mae 'r balch yn felltigedig.
Er nad all y dyn ſynhwyr-lan,
Fod heb weld ei werth ei hunan ;
Etto ſynwyr mawr yw celu,
Ei fod ef yn † nabod hynny. † *Ei werth ei hun.*
Dwli mawr yw bod yn hela,
Am ganmoliaeth y byd ymma ;
Hynny lygra'r parch yn hollol,
Y ſydd itti yn berthnaſſol.

Am glôd Gwenieithwyr.

NA fydd falch am glôd Gwenieithwyr,
Cans * diſſemblo mae pob Twyllwyr : * *Chware caſle, neu law wenn*
Byth nis gelli weld yn drefnus, † *Glaſs.*
Dy wir lûn, mewn † drych twyllodrus.
Gochel dybied fod d' wyneb-pryd,
Mor lân, ac mae 'r rhain yn dwedyd :
Mi wnn beth yw f' hun yn hollol ;
Di-raid yw ir cyfryw 'm canmol.
'Rhwn a garo ei ffrind, yn ffyddlon,
Hwnnw ddywaid wrtho ei feion :
Mae 'r rhai hynny 'n twyllo ei hunain,
Sydd â'i brŷd i'm twylloi'n * gywrain. * *Fedrus.*

Am feio a chanmol.

NA fydd byth yn ddyn anfoeſol,
O ran beio dim nai ganmol ;

Pa

Paraid it' ddateuddio 'th biniwn;
|| Yn ymbyrredd. Ffol fydd || byſſi 'n hyn o ffaſhiwn.
Pwy all draethu pa ddiffeithdra,
Ddichon tyfu o'r peth ymma,
† Pengaled. Os bydd arall mor † anhydyn,
A chyfodi yn dy erbyn?
|| Ddadlu tros beth. Toſt yw gorfod it || ſienteimio,
* Buaſſei. Rhyn na * byſſe raid it deimlo.

Am gellwair neu ieſto.

† Cellwair. PAn y bech yn † ieſto 'n wiw-lan,
Na chwardd am dy ben dy hunan;
* Rhyſeddol. Rhag i eraill yn dra * chethin,
Am dy ben gael lle i chwerthin.
Fe gyll ieſt ei wîr felyſwedd,
Os dydi a chwarddu 'n rhyfedd,
Pan y bech di yn ci adrodd,
Yn-myſc un rhyw fath o boblodd.
Digrif-air y ſydd iw glywed,
Ac nid ydyw 'n beth iw weled;
Cans llefaru 'rwyt ti 'n waſtad,
Wrth y clûſt, nid wrth y llygad.
Os myn un-dyn roddi ergyd,
Nid oes iddo 'mlaen-llaw ddwedyd,
Ei fod ef ar feder taro,
Gall trwy hynny gael ei rwyſtro.
Na chellweiria yn rhy bigog,
Rhag it golli cyfaill rhywiog.
* ſicer. *Gwell it golli 'th ſport anweddys,*
*Nag it golli dy ffrind * dylys.*
Ac wrth gellwair attal d' hunan;
† Araf dig. Rho dy fŷs ar glwyf yn † chwarian:
|| Agos. Ni ddioddef nemmawr || haechen,
Gwrdd â'r mann lle byddo 'r grachen.
* Difriſol. *Os mewn ieſt, neu os yn * bryſſur,*
Y goſſodi fŷs ar ddolur;

Gochel

Gochel yn rhy galed rwbbio;
Dal dy law, os yw'n dolurio.
Pan ceryddir rhai wrth gellwar,
Y mae' gwaed hwy 'n † cwnnu 'n hagar
Ac am hynny, gwilia 'n fasol,
Wrth gellweirio, na bech ffrom-ffol.
Ymfodlona i dderbyn weithian,
'K'arian fatheiſt di dy hunan:
*Nid difyrrwch nes * cyd-drawer;*
Fel y rhoddaiſt, felly cymmer.
Gwna i eraill fel damynyd,
Iddynt hwythau itti wneuthyd;
Yr un rhydd-did allant † erfyn,
Heb roi lle it ddigio gronyn.
Pan y gwnaetheſt di wialen,
Ac y curir di drachefen.
Ar ôl itti guro erill,
Eyth na thŷb fod hyn yn erchyll.
Gan it roddi'r ergyd cynta,
Bydd yn ddiſtaw, ac na ddigia:
Bydd yn fwyn, ac ammyneddgar;
Gan it ddechreu 'r ffrâ, bydd hawddgar.

* Irwy roi ieſt am iaſt.

† Ddeiſyf.

Am garu a phriodi.

PAn bo 'n rhaid it' fynd i garu,
Fel y bo i ti briodi:
*Gâd ith * ffanſi gyſcu 'n ddilys,*
Tra fo'th † Farn yn gwneuthur dewis.
'Nôl it wneuthur d'ore trwyddo,
Gelli er hynny gael dy dwyllo:
Arfer bwyll wrth fynd i garu,
Pwyll a'th gadw rhag dy faglu.
Dewis heſyd wraig yn waſtad,
With dy glûſt, nid with dy lygad.
Gall wynebpryd glân dy dwyllo,
A ſaindda all dy gyſſuno.

* Tŷb.

† Deall.

Heb.

Heb-law hyn, mae 'n beth peryglys,
Ddottio ar degwch gwŷch trwſſiadys:
Llawer gwraig ag wyneb pur-lan,
Ddichon bod yn fenyw aſlan.
Bid dy ſerch ar ferch rinweddol,
Fwy nag ar un dêg gorphorol:
Rhyfedd yw, i ferch ddrygionns,
Brwfio bod yn wraig rinweddus.
'Rhon ni ŵyr mo'i Dyledſwydde,
At yr Arglwydd, mae 'n ddiamme,
Nad yw honno ddim yn nabod,
Ei Dyledſwydd at ei phriod.
Edrych nid am râs yn unig,
Ond am natur hyfryd, pwyllig:
Y mae cyſſur y priodol,
Yn y peth hyn yn gynhwyſol.
Grâs ar wreiddyn ſur groboſſaidd,
Sydd fel perl mewn lle afluniaidd:
* Sar. *Gall fod grâs mewn morwyn * ſarrug;*
Ond ſarrugrwydd ſydd beth ffyrnig.
Nef ac uffern mewn cyſſylltiad,
Nid yw fatter o ddim hoffiad:
Câs yw hefyd fod dyn graſſol,
A Chythreules yn briodol.
† Merch ddrwg. *Na phrioda † Fronten (gwrando)*
* Well-ban. *Mewn rhyw obaith iddi * fendio:*
Ac os gwnae, cai weld mewn amſer,
It' bwrcaſſu triſtwch lawer.
'Na phrioda wraig rhy uchel,
O ran tylwyth mawr a chenel:
Diſgwyl am fod honno 'n Feiſtres;
Odid oni bydd hi 'n Arthes.
Llawer peth anaddas ddigon,
† Priodi. *Ddaw o † faitſho â thylwyth mawrion:*
Cans ir rhain yn wâs y byddi,
Ac yn ſlâf, bydd ſwr o hynny.

Rod

Bod yn gaeth-was ni waſnaetha,
D'olud hefyd rhaid it ddifa,
Trwy fainteinio ith hun yn ddie,
Ym-mhob gwychder megis hwythe.
*Tebig ir * Twrc mawr yw'r gwychion;*
Lle dêl ei gyphyle mawrion,
Ni bydd glaſ-wellt idd i weled,
Porwyd oll yn dra afrifed.
† Gwaddol gwraig all roi || peth awgrym,
Am y cyſſur y all ganlyn:
Wrth ymadael â'th lân rydd-did,
Mynn am dano Aur a golud.
Ar dy rydd-did, dôd bris uchel
Os ae'n ddrwdg, mynn am dy drafel:
Paid a mynd am ddim i ddyrnu;
Ond cais wybod beth ſydd iddi.
I ſain gwlâd na thryſta ormod,
Sain ſy ffrind i rai menywod:
Bwrw fod yn llai y gwaddol,
Nag y mae wrth ſain y bobol.
Os ith gyflwr 'rwyt anfodlon,
Os yw 'th frŷd yn ſiccr ddigon,
I briodi ac i fatſhio,
*Bid un † Frâs, nid * cûl, i'th flino.*
Os ith ran y daeth gwraig weddus,
Etto na phromeiſia 'n ddilys,
I dy hun mor llwyr ddedwydd-dra,
Oddiwrth wraig, na dim ſydd ymma.
Ni feddiannaiſt un creadur,
Ac y roddodd i ti'r cyſſur,
Yr addewaiſt it dy hunan,
Wrth ei hela yn dra buan.
Nâd ith obaith ynte 'th dwyllo,
Nac i beri it ben-ddottio;
Nid yw'r ffrwyth yn ôl y blode,
Mae 'n y bŷd fawr dwyll yn ddie.

* *Emp-rwr y twrc-od.*

† *Cynnyſ-gaeth.*

|| *Am-naid hint.*

† *Gyfoe thog.*

* *Tlawd.*

Ond

Ond ith ran pe bae yn diſgyn,
† Caſodd. *Yr hapuſrwydd nas † cas un-dyn;*
Etto amſer bob ychydig,
A gwna'n gâs ac yn ſinedig.
Er meddianna 'r peth meluſa,
O hîr ſefyll ſe a ſura;
Felly cyſſur â'n ddi-hoffder,
Oi hîr gynnal ai hîr arfer.
Ar dy oedran pan del gaia,
Pan bo gwallt gwyn ar dy goppa,
Ti a ddwedi y pryd hynny,
Da yw 'r cynghor hyn o ddifri.
* Mewn ſtâd priodas. Os wyt gwedi 'th * ddala 'n amlwg,
Os yn ddôf y rhoeſt dy wddwg,
Dan y iau, cais dynnu 'n union,
Fel y gweddai i bob criſtion.
Pan bo un rhyw waith iw wneuthur,
‖ O ddifri, * Allan. *Cariad ai gwna 'n hawdd ‖ o bryſſur:*
'Rhyn a wnelech gwna 'n 'wllyſgar,
*Hynny 'th ddôd di * maes yn hawddgar.*
Na fydd tynn i gael blaenori,
Os llonyddwch wytti 'n garu:
A pheth yw 'r gwahaniaeth eglur,
Rhwng dau 'n un ſy wedi gwneuthur?
Na ddwed wrth dy wraig, yn ddie,
Hyn ſy 'mi, a hyn ſy' tithe,
Cans y cwbwl ac y feddoch,
Sydd yn Dda cyffredin rhyngoch.
Os llwyr gollaiſt gyda 'th rydd-did,
Y berchnogaeth gynt oedd genyd;
Nid oes itti le i gwynfan;
Diolch am hynny it' dy hunan:
Nid yn gaeth, ond rhydd dy anwyd:
I reoli 'n ſiwr ith wnaethpwyd:
* Collaiſt *Os * ffforffetaiſt dy feiſtrolaeth,*
Ar dy hun mae 'r bai, yſwaeth!

'Rwyt

'D wyt oth fôdd gwedi ymrwymo,
Drwg gan hynny it' * *gomplaino:* * *Aſwyn*
Gwna dy gyſlwr byth trafyddech,
Mor gyſſurus ag y gallech.
Gan it ddewis 'rhon a geraiſt,
Cais di garu a ddewiſaiſt.

Am Blant.

OS bydd diffig eppil weithian:
Cyfrif hynny 'n eiſie bychan:
Plant yn ſiwr a ddûg ofalon,
*O*nd anſiwr † ynt ddwyn cyſſuron. † I *Ddyn.*
F'*all y doeth genhedlu* * *dwlyn*: * *Ffôl.*
F*el ei Dâd nid yw pob plentyn:*
Gwelais (ryw-bryd) Fâb gwr ffel-gall.
Yn Anghenfyl câs, di-ddeall.
Gwelais Blant fel ‖ Gwibrod drewllyd, ‖ *Y wiber,*
Iw Rhieni yn fawr driſtfyd, *medd*
Yn llwyr ddifa eu holl Bethe, *rhai, y*
Ac yn torri eu calonne. *leddir*
Os ir oes y ſydd yn canlyn, *gan ei*
I ddwyn d'enw nid oes plentyn: *rhai by-*
Coſia i Frenhinoedd mawrion, *chain, yn*
Farw, 'n fynych heb Difeddion. *torri all-*
A oes gennit Dîr a phethe, *an oi*
A heb Difedd ith feddianne? *bola hi.*
Llawer ſ'ar y Ddaiar helaeth,
Ac heb ganthynt ddim Tifeddiaeth. † *Yn caru*
Or 'dwyt Dâd, na fydd fel † *malyn,* *gormod.*
Nâd ith ſerch ddeſtrywio 'th Blentyn:
Plŷg wialen cyn y tyfo,
Rhag yn fawr nas gelli' 'ſtwytho.
Hallta ei flynyddoedd tyner;
'Nôl ei Dymmer blaſſa 'r lleſter:
Gâd 'e ſugno yn ddiwallys,
Gyda 'r fron, * wyddorion iachus- * *Princi-*
ples.

Dihar. 22: 6.

Gwna ith Fâb fod yn gynhefyn,
A Daioni trafo 'n Blentyn;
Felly dysc e'i || ddlêd yn hawsach,
Felly gwnaiff ef hynny 'n hoffach.

|| Ddyledwydd.

Bydd ith Fâb yn siampl gole,
Yn Gyfrwyddwr gwŷch o'r gore:
Rhô lan goppi 'n addysc iddo,
I scrifennu 'n dra thêg wrtho.

* Pa fodd y beia tad drwg ei Fab drwg.

* *Bwedd y gellir beio 'r plentyn,*
Sydd ar ôl ei Dâd yn canlyn:
Ac os bei-ir, 'rwyfi 'n coelio,
Nad ei Dâd y ddlye feio.

† Arwain.

† Tywys Di fe ir llwybyr union;
Y mae siample uwch-law gorchmynion:
Y mae llygad yn cyfrwyddo,
Fwy nag y mae 'r clûst sy'n gwrando,
Yn gyffredin gellwn weled,
Teulu 'n dilyn traed ei meistred:
Peth arferol yw ir plentyn,
|| *Farco ffyrdd ei Dâd, a'i canlyn.*

|| Craffu.

Rhaid it' weithie fod yn dirion,
Wrth dy blant, ac weithie 'n ddigllon,
Gan eu cospi 'n ôl eu tymher,
Nid yn ôl un † traws-rhyw arfer.

† Trwy eu cospi 'n rhy greulon.

Os trwy dêg y daw dy Blentyn,
I ymostwng ith orchymyn:
Nid rhaid itti arfer trawsedd,
Nac un côsp fo 'n * ddigymhwedd.

* Creulon.

Deut. 6.6.

Tywallt iddo ef wrth radde,
Pob daioni a rhinwedde:
Hyn a bair ith Blentyn garu,
Pob rhyw rinwedd a daioni.

† Cospi.

Dangos mai gwell gennit wabro,
Cynneddf dda nâ'r drwg † bwnisho:
Canmol Blentyn pan bo 'n iawn-dda:
Hynny gwna fo 'n well * tro nessa.

* Pryd.

Gochel

Gochel ddwyn dy Fâb i † fynydd, † *Fynu.*
Yn ſegurllyd ac yn ddifydd:
Pam y caiff oferddyn digar,
Lwyr ddiſetha dy holl || labar? || *Laſur.*
Gwêl na roddech alwad iddo,
Ond yr hyn ſydd hyfryd gantho:
Na wrthneba ei fwriad gweddus;
Ni wna dda yn groes iw 'wllys.
Ac ir Donie * ſ'o naturiaeth, * *Sydd o.*
Yn dy Fab, rho fawr gynhyſgaeth;
Trwy roi iddo Addyſc gweddol,
Gan ei feithrin e'n rhinweddol.
Mae gwybodaeth fel perl hawddgar;
Sydd ynghanol modrwy hygar,
Ei wybodaeth a wna iddo,
Fod yn wr bonheddig trwyddo.
Nâd ith Blentyn weld un-amſer,
Beth ſydd gennit ar ei feder;
Rhag i hynny beri iddo,
Scluſſo 'r galwad y ſy gantho.
Ac na âd ith râg-ddarpariad,
Rwyſtro'th Fâb i drin ei alwad;
Canys y mae dau Ennillwr,
Yn dra bychan i un Treiliwr.
Da bod march ith law wrth rodio;
Pan y blinech, cae fynd arno:
Crefft neu Alwad ddichon helpu,
Pan bo ſtock y Tâd yn ffaelu.

Am Deulu.

BId d'ymâddygiad yn dy Deulu,
Idy Le yn llwyr agweddu;
Felly 'nilli di eu cariad,
Ai dyledus barch yn waſtad.
Gwêl na fech yn rhy gyfeillgar,
Ag un Gwâs neu Forwyn † hygar; † *Caru-eidd.*

Na ddatcuddia mo'th Ddirgelion,
Nac ith weiſion na'th forwynion.
Os gwnei felly, nhwy fydd Feiſtri,
Tithe fyddi iw gwaſnaethu:
* *Lyfaſu.* *Yna 'rhwn ni* * *feiddi ddigio,*
A'th cyffrô di pan y mynno.
Fel y bo' ir rhai ſydd danat,
Weld eu lle, a'i dyled attat;
Bid bob amſer hyn yn d'amcan,
I lwyr gadw 'th lê dy hunan.
Na fydd hefyd Arglwydd creulon,
* *Ofnadwy.* *Nac ith Deulu'n Ddyn* * *echryſlon:*
Bid dy ffonn byth yn dy ddwylo,
Iddi gweled, nid i theimlo.
† *Aruthr.* Canys wrth dy ofni 'n † aethlyd,
‖ *Dewant.* ‖ Dônt ith fawr gaſau di hefyd:
Ni wna rhain ddim da 'rwi 'n gwybod,
Ond pan bo ti yn ei gwarchod.
* *O ddifri.* *A pha ddyn a fydde o* * *bryſſur,*
Y fath ſlâf idd ei waſnaethwyr,
† *Deiſyf.* *Rhai ni wnânt moi waith er* † *erſyn,*
Oni fydd ei lygaid arnyn?
Dewis di 'r fath rai a weithio,
* *Goſalus.* D'waith yn * garcys heb eu ‖ ſiacco;
‖ *Ceryddu* Hoffa di i gweld hwy 'n ſiriol,
Pan y gwnânt ei gwaith yn wrol.
Rhag-ddarpara eu lluniaeth iddyn,
Yn eu gwaith, nâd ddiffyg arnyn:
* *Iddyn'.* *Tâl ei cyflog* * *ynt yn* † *ddifâr;*
† *Diddig* *'Nôl ei gwaith, nhwy bie 'r wabar.*
Teilwng yw ei hîr ir Gweithiwr:
* *Gwaſanaethwr.* 'Nôl ei haeddiant, rho ith * 'ſnaethwr;
Ym-mhôb gwaith ſydd dda cefnoga,
Fe wna 'th waith yn well, pryd neſſa.
Wrth amodi cadw 'n ddilys,
Rhai o bethau ar dy ddewis:

Felly

Felly bydd it' fontais wiw-les,
Fod mewn rhan, yn well nâ 'th bromes.
Na wna 'th weiſion byth yn ſlafied:
Na ddôd arnynt waith rhy galed:
Weithie bid dy fwa 'n nattod;
Na fid yn ei blŷg yn waſtod.
Y mae amſer i rai weithio,
Ac mae amſer i orphwyſo:
Wrth dy 'nifail na fydd 'ſgymmyn;
Llai o lawer wrth dy † 'ſnaethyn.
'Styria 'th wâs fel Dyn, fel Criſtion,
Byth nis byddi wrtho 'n greulon:
Rho 'ddo amſer o eſmwythad,
Cyfattebol idd ei alwad.
Fal yr wyt ti 'n rhwym o ddiſri,
Am dy weiſion i ofalu:
Felly am eu cyrph a'u 'neide,
Rhaid it roddi atteb gole.
Os digwydda i un † fyſcarrio,
Fe o fynnair it am dano:
Os bu hyn trwy dy 'ſceuluſdra,
Rhaid it' atteb am dy ‖ ddwldra.
Y mae 'n meiſtyr Criſt yn cofio,
Y gwaſnaethwr lleia ſ'iddo:
*Pawb oi flaen * ſ'â'r un ehangdeb;*
Ger ei fron 'does derbyn wyneb.
Ti, a'th ŵch, a'th îs, yn hynod,
Saif ar fyrr, ar Diroedd gwaſtod.
Cyfrif di 'th waſanaeth-ddynion,
'Myſc dy blant dy hun yn dirion:
** Gradde ydyw 'r holl wahaniaeth:*
Y mae 'r ddau dan 'r un rheolaeth.
'Rwyt ti 'n Dâd ith Deulu hefyd:
Gwell gwâs doeth nâ phlentyn ynfyd:
'Rhwn a ddarfu 'th waith ei dreulio,
Na † thawl allan pan heneiddio.

† *Waſanaeth-ddyn*

† *Gael ei ddeſtrywio.*

‖ *Ynfydrwydd.*

* *ſydd â'r un llyddander.*

* *Sef, fod y plant beth yn nwch na 'r gweiſion.*

† *Fwrw*

Cyfrif hèn waſnaethwr ffryddlon,
Gyda 'r goreu o'th gyfeillion :
Ond bydd ſiwr yn ddoeth gerydu,
Am ei fai dy wâs ar nailltu.
Cerydd dddirgel ſydd yn toddi ;
‖ *Cyhoeddus.* *Cerydd* ‖ *coeddus ſy'n caledu :*
A pharodol iawn i ddigio,
Y dyw'r ſawl ſ'eb gwilydd arno.
* *Stŵr.* Cyn arfereeh ormod * ddwndwr,
Gad i fynd pob drwg waſnaethwr :
Gwell it weithio 'th waith dy hunan,
† *Araf deg,* † Gan dy bwyll, nâ gormod * gippian.
* *Erchi.* *Os yw 'th wâs yn ŵr mewn oedran,*
† *Chura.* *Am ei fai na* † *ffŷſt ef weithian :*
Drwg y gwedd ir gwâs a'r meiſtyr,
Fód yn ymladd mewn un meſur.
Byth na chadw fwy o weiſion,
Ond ſydd raid er dy achoſion :
‖ *Nerthol.* Rhai bonddigion cadarn ‖ terwyn,
* *Gweiſion-traed.* Ddigeffylwyd gan eu * ffwytmyn.
Nâd ith weiſion, nac ith genel,
Na neb arall mewn un cornel,
* *Treulio.* *Yn dy dŷ lwyr* * *waſto 'n erchyll,*
Fwy nag ydwyt ti 'n ei ennill.
Mae dy weiſion (gwybydd) hefyd,
Yn gyfrannog o dy hawddfyd :
Ond os dan y ſtorm y byddi,
Hwy a ffônt, ac ânt i lechu.
Rhai (gwir yw) a wnaethant lawer,
Dros eu meiſtred yn eu Blinder :
Ond nid yw hi 'n hâf, er gweled,
Un neu ddau o'r bâch wenolied.
Llai o weiſion a fu feirw,
Dros eu Meiſtri fu 'n eu cadw ;
† *Cafas.* Nag y † gas o Feiſtri mawrion,
‖ *Diſa.* Ei ‖ handwyo gan eu gweiſion.

Am

Am Gyfaill neu ffrind.

PAn dewiſech ffrind, bydd bwyllog :
Bydd wrth newid fwy * gwagelog :
Nâd yn ebrwydd ith ſerch || ſetlo,
Ond lle craffo, gwna 'ddo drigo.
Mae parhâd mewn cariad gwiw-iach,
Yn dwys ddilyn gwir gyfeillach :
Ac mae anwaſtadrwydd ynteu,
Yn Fai ſ'anhawdd iawn i faddeu.
Profa gyfaill cyn ei † dryſto,
Gwedyn na fid dowt am dano :
Byth ni wnei ith ffrind fwy niwed,
Nag am dano 'n dôſt ddrŵg-dybied.

* *Goſa-ius.*
|| *Arall.*
† *Ymddi-ried ynto*

Am fodloni Duw.

NA wna ddim i anfodloni
Y bendigaid Dduw, uchel-fri :
Na fid dim a wnelo ynte :
Yn dy anfodloni dithe.
Ac na fydded ond ûn 'wllys,
*Rhwng dy Dduw a thithe 'n * ddilys :*
Gwllys Duw ym-mhob rhyw bethe,
Ddlye fod dy 'wllys Dithe.
Bid yn weddaidd dy ymddygiad,
Fal un fydd o flaen ei lygad :
Mâe Duw 'n canfod dy feddylie :
Mae e'n clywed dy holl eirie.
Os troſſeddaiſt yn ei erbyn,
Haeddaiſt gôſp, 'dwyt nês er achwyn :
Fe fydd Tŷſt a Barnwr cyſion,
Am dy bechod a'th droſſeddion.
Ac os bydd dy farn yn galed,
Mae hi hefyd mor gyfiawned :
Ond i ddiangc rhag yr ergyd,
Oddiwrth bechod cilia 'n ddiwyd.

* *Sicc.*

Pſa. 37.

Am farwolaeth.

PAn y gwelych feddau 'r meirw,
Darllen d'angeu yno 'n groyw:
* *Ar frys.* Fal y maent hwy, byddi * chwippyn;
Aethant hwy, 'rwyt tithe 'n canlyn.
* *Canu.* *Darfu idd eu clŷch * fodrwyo,*
Mae'th glôch ditheu 'n dechreu tinccio:
† *Amſer bychan.* *Am ben † trô, dy le nith nebydd;*
Bêdd ſy'n barod itti beunydd.
Angeu ſ'wrth y drws yn curo,
* *Mòdd* Daw ith dŷ 'does * llûn ei rwyſtro:
Cwplà 'th waith cyn dèl yr Angeu;
† *Ddyſod.* Rhaid it † ddwad iw gratangeu.
Bydd di fyw fel mi ſy'n gwyboa,
Phil. 1. 23 *Fod yn rhaid it' gael dy ddattod:*
Felly 'n ddrws bydd dy farwolaeth,
I dy ddwyn i iechydwriaeth.

Am Gyſtyddiau.

OS cyd-ſtadlu 'rhyn a haeddaiſt,
A'r cyſtyddie y dderbyniaiſt;
Di gae weld, fod dy ofydie,
Fyth yn llai nâ'th gâs bechode.
Gallſe fod yn waeth dy nychdod,
Y mma, neu yn uffern iſſod:
Galar. 3 *'Does gan ddyn byw le i achwyn,*
39 *Er bôd gofid yn ei ddilyn.*
Canys mae e'n ffafor rhyfedd,
Fôd mewn lle i gael Trugaredd,
A bôd barn heb ei chyhoeddi,
Yn dy erbyn am ddrygioni.
Mwy nag wyt ti 'n haeddu yw cerydd;
Pa faint mwy yw pardwn dedwydd!
Nid yw dy gyſtyddie byrrion,
Ond fel pigad chwain neu gilion.

Os

Os am fawr ddrwg 'rwyt' yng-harchar,
Ac os prwfier dy fai hagar;
Ffafar cael oth law ei llosgi,
Pan y bych ti 'n haeddu 'th grogi.

Am Ddaioni cyffredinol.

M*Eddwl wneuthur da cyhoeddus;*
Y *mae hyn yn siwr, yn ddilys,*
Fod daioni cyffredinol,
Yn gan-gwell nâ da nailltuol.
Mwy o lês fydd i bôb ochor;
Ond ith hun bydd mwyaf gwobor:
Ni wnei byth dda cyffredinol,
Heb * wneid da ith hun yn hollol. * *Wneuthur.*
Nid all peth sydd dda ir cyfan,
Fod yn ddrwg i neb o un-rhan.
Gochel yspryd câs-bring, caled;
Er dy fwyn dy hûn ni'th aned.
Mae ith wlâd ran ynot, cofia,
* Meis y mae ith blant o'r siwra; * *Megis.*
Rhyfedd yw i ryw beth bychan,
Bwyso lawr y wlâd yn gyfan.

Am ffrins gwedi marw.

B*Yth na thŷb it golli 'th afel,*
Ar dy ffrinds y ddarfu' madel;
Idd i cartref hwy ddanfonwyd;
*Darfu' gwaith, ai * taith orphenwyd.* * *Siwrne*
Tra bych ar eu hôl yn * bodio, * Bôd.
A'r storm ar dy ben yn curo,
Maent (os duwiol † oent) yn llawen, † *Oeddynt.*
Yn y nefoedd, hardd, ddisglairwen.
'Rhyn sy gennit yn dy olwg,
Sy 'n eu dwylo nhwy yn amlwg:
Hwy ennillsont goron || fawr-gu, || *Tra anwyi.*
*'Rwyt ti etto i * gwngcweru.* * *Orchfygu.*

Mae

Mae dy ddillad di yn gochion,
Mae eu gwiſgoedd hwyntau 'n wnnion:
Daethont hwy o'r môr yn gefnog;
Ond 'rwyt ti 'n y dyfroedd tonnog.
Fe lwyr ſychwyd eu holl ddagre,
Llawn o wlîth yw 'th ryddie dithe:
Na alara droſtynt weithian,
Ond galara dros dy hunan.
Maent hwy 'n ſiccir yn fwy happys,
Gan eu mynd ir nef yn ddilys,
On blaen ni y rhai daiarol,
Os y buont fyw yn raſol.

Am ochelyd profedigaethe.

I Ymgadw rhag y peehod;
Rhag yr achos cadw 'n waſtod:
Hawſach ffoi rhag temptaſiwne,
Nai gwrthnebu yn y cyſle.
* *Pitch.* Gochel * bûg rhag dy ddi-harddu;
Gochel ffordd ſy 'n enbyd trwyddi;
Ni d Doethineb byth i tithe,
Ddwad ir man ſy 'n llawn perigle.
Gwêl di fel y mae 'r gilionen,
Yn y fflam yn lloſgi haden,
Gwedi chware dautu 'r ganwyll;
Dyna ddaw o fod yn byrrbwyll!
Byth na thryſt ith nerth dy hunan,
Rhai trwy ryfig a ſyrthiaſan:
* *Gofalus* Gwell gan hynny bod yn * garccys,
Na bod byth yn rhy hyderus.
Anhawdd ſefyll mewn lle llithrig,
Bod yn lân 'myſc rhai llygredig:
† *Peter.* Cofia fel y cwympodd † *Cephas*,
Yn nhŷ 'r Archoffeiriad Caiphas.
Gochel abwyd ar y bache,
D'olwg trô 'ddiwrth Demptaſiwne:

Bwriad

Bwriad cryf nid ydyw ddigon,
Gellir d'hudo trwy 'th olygon. Job 31.1.
Temptiwr cyfrwys ſy'n dy gymmell,
Prawf trwy rym, a phrawf trwy dddichell;
Os fel llew ni thynn mo'r Afal,
Fal ſarph i ddringad mae ſo'n abal.

Am ddarfodiad bywyd.

MEgis Dwr y mae dy fywyd,
Fyth yn Rhedeg, heb ddychwelyd:
Bob dydd 'rwti 'n marw 'n * ddios, * *Ddiw.*
I Ddoe 'rwyti 'n farw eiſios.
Mae 'th dŷ clai yn agos ſyrthio,
Clefyd bach a wna 'ddo ſiglo;
Pwy all ddwedyd nad y neſſa,
Y dyw 'r clefyd a'th ddeſtrywia?
Am hîr fywyd nis cdrychaf:
Am lân fywyd mi 'tolygaf,
Ar ir Arglwydd i roi immi,
Fel bo'i parod i † ddattodi. † *Farw.*
Ni waeth er cynted 'r âf oddiyma
Pan bo 'ngwaith i gwedi cwpla:
Ni châf weled Duw 'n rhy ebrwydd;
Yn rhy frau ni chaf happuſrwydd.

• *Am ymguſſuro mewn gobaith o'r nêf.*

YDyw 'th gyflwr yn gymylys?
Gloewi wna, a'r Haul y ddengys:
Nâd i Driſtwch gael ei llwybyr;
Pâr i chwithdra 'mado 'n bryſſyr.
'Styria ble 'rwyt ti 'n trafaelu,
Gâd ith obaith dy ddiddanu:
Drwg gweld ſant yn anniddanus,
*Pan bo 'n mynd tuar nef * orhoenus.* * *Llawen*
Na fydd Driſt, ond bellach meddwl,
Y gwna 'r nefiawn am y cwbwl:

Rwyt

Heb. 10. 35. Rwyt ti etto dan dy oedran,
Cais Amynedd ennyd fechan.
Mae 'r Etifedd yn meddiannu,
Ei Difeddiaeth, gwedi tyfu
Iw lawn oedran: felly 'r graſol,
Gânt mewn pryd y Deyrnas nefol.
†*Diſguiſed.* Gall Tywyſog fynd yn † ffugiol,
Mewn gwael wiſc, trwy wlâd ddieithrol:
Ond pan ddêl iw wlâd ei hunan,
Hoyw fydd ei wiſc, a gwiw-lan.
Ffordd ni phriſiaf, tra bo'i 'n hyſbys,
Tua 'm Tref ei bôd hi 'n tywys:
Am fy nhaith, 'dwi 'n meddwl cymmwyn,
Ac wi 'n feddwl am ei therfyn.
Na chais Nefoedd ar y Ddaiar,
Ni chaiff pawb ddwy nefoedd hawddgar:
Trwy iawn 'ſtyried, hawdd yw canfod
Un yn ddigon, dwy yn ormod.
**Cynnyſgaeth.* *Nid yw* * *gwaddol mewn meddiannad,*
Yr un pryd ac mewn diſgwyliad:
Na chais ſwytta byth dy Fara,
Heb yſgogi draw nac ymma.
Y mae Gwaith i flaenu gwabar,
**Cwncwerwr.* * *Fictor* ſy 'n cael coron ha[illegible]
Am gael llwybyr tèg nac edr[illegible],
Yn llawn Roſes hardd, pereiddwych.
Dioddefa dau ſydd briodol,
I dy gyflwr di 'n breſennol:
A fynnu fod dy letty 'n gyfan,
Megis ac y mae dy Drigfan?

Am drwbwl ynghylch cyſtyddiau i ddyfod, ac wedi dyfod.

BYth na chrea it dy hunan,
Un rhyw groes na mawr, na bychan:
Nid yw hynny ddim peth amgen,
Nag ymofyn clwm mewm brwynen.

Na

Na ſydd * *garccys am y foru*; * *Goſalus*
F'alle nis cæ ei feddianu:
Digon ebr tafod pur-lan,
I bob dydd ei ddrwg ei hunan. *Mat.6.34*
Byth yſgatfydd ni ddigwydda,
Mo'r trallodion y ddiſgwylia
D'enaid arnat, am * 'ynt ddiſgyn, * *Iddynt.*
Felly am ddim mae 'th drwbwl † terwyn. † *Poeth.*
Ond yſtyria hyn yn ddios,
Mae 'n bryd diſe pan dêl achos,
Itti riddfan am dy drallod;
Blinder blaen-llaw ſydd yn ormod.
'Rhyn ſydd gennif mi meddiannaf,
Doed y peth a ddelo neſſaf:
Ac mi dorra 'm ſyched heddu,
Er bydd diffig diod y foru.
Os yſtyrii 'r drwg ddigwyddodd,
I rai eraill bob amſeroedd;
Ni ryfeddu 'r digwyddiade,
Y ddigwyddo 'n awr i tithe.
Ydyw pethau 'n mynd ir gwaetha,
Gyda 'th well mae 'n waeth mi gwranta.
Wyt ti 'n dlawd? * yn llyn 'roedd fforten, * *Fel in.*
Rhai o'r gwycha ar y ddairen.
Rhai fu 'n dlawd trwy eu dewiſſiad,
A'r rhan fwyaf trwy ddigwyddiad.
Gwagedd ydyw golud lawr,
Cans hwy ddygant dra-mawr blinder.
Mae poen mawr i gaſclu golud;
Blinder ſydd o'i colli hefyd:
Ie gwnant i ddynion gwympo, *1 Tim.6.9*
Megis Gwiſc ar lawr ſo'n llyſco.
Dlywn ſod i'm Tâd yn fodlon,
Os trîn ſi fel pawb oi feibion:
Nid yw reſwm ir mâb gwaetha,
*Ddiſgwyl cael y * porſiwn mwya*. * *Cyſran.*

Nàd

Nâd ir trallod ſydd arferol,
Ddilyn dynol ryw 'n waſtadol,
Beri itti gwyno 'mhellach,
Bod yn drwm, yn driſt, neu rwgnach.
Cefen at y baich a luniwyd,
Eraill megis dithe lwythwyd :
† Dyſal. *Pa ſawl un ſy'n mynd yn † yſtig,*
* Llwythau. *Dan rhyw * goelau mwy pwyſedig ?*
Gâd fod rhai dan lai o groeſe,
Etto er hyn nac achwyn Dithe :
Os wyt ti, nâ hwy 'n fwy nerthol,
‖ Cyfattebol. D'wllys bid, ith rym ‖ 'n attebol.
Darfu 'm geni i drallode,
Job 5.7. *Idd eu cario gwnaf fyng ore.*

Am ffrwyno 'r cnawd.

BYdd yn ſobr, bydd gofalus,
Na roech lè ith chwantau nwyfus,
I lwyr dreulio 'rhyn ſydd gennyd,
Y ddarparaiſt at dy fywyd.
Tôſt gweld dyn yn treulio 'r cwbwl,
Ac a 'nillwyd trwy fawr drwbwl,
Gan waſtraffu, bwytta ac yfed,
Gwedy'n goddef newyn caled.
Na ro 'r ffrwyn ith gnawd, ond goſſod
Rwyme ar dy chwantau 'n waſtod :
Dyſc hwy gadw eu terfynne ;
Nâd hwy ſyned dros y bangce.
Cymmer 'rhyn ſydd anghenrheidiol ;
Na ro gluſt ith nattur gnawdol :
* Ymattal. * *Stoppa, gwel pan bych yn ddifa,*
Blin yw chwennych gormod bethe.
Pan bo pleſſer yn dy demptio,
Tro fe o amgylch, idd ei chwilio :
Edrych ar y rhan tu-cefen,
Fel ar hwn ſydd at yr haul-wen.

Os

Os mewn pethau drwg mae 'th hoffder,
Triſt ochneidion a'i try 'n ſurder:
Conſciens ddaw ryw bryd ith waſcu,
Am it ddilyn gyfryw frynti.
Cymmer rybydd oddiwrth * ſelyf, *Rhuf 2.*
'Rhwn a ddwedei yn † an-nigrif, * *Solomon.*
Gwedi 'mlenwi â phôb melyſwedd, † *Driſt.*
Nid yw 'r cwbwl oll ond gwagedd.
Gâd i brofiad hwnnw ith gadw,
Rhag pleſſerau a dry 'n chwerw.
Os gwell ſynwyr gwedi brynu,
Cofia 'th || gnoſeydd hèn 'n ol pechu. || *Cnoſeydd dy gydwybod.*
Ti addewaiſt it dy hunan,
Ond cael pleſſer 'n ôl dy amcan,
Y ceit lawer o hapuſrwydd,
Ffaeleſt er hyn gael bodlonrwydd.
Gwaſcfa 'th gonſciens, ofn Angeu,
A'r mawr gyfri raid yn oleu,
Itti roddi ir Barnwr cyfion
Am dy ddrwg, ai trôdd hwy'n chwerwon.
Pan y ceiſir neſſa 'th dwyllo,
Cofia beth wyt wedi * ffeindio: * *Gael.*
Nid oes le ith eſguſodi,
Os ddwy-waith y cymry 'th † ſiommi. † *Dy dwyllo.*

Am ochelyd || dannod ei gwendidi eraill. || *Edliw.*

GOchel ddannod gwendid arall;
Ei an-harddwch cela 'n ddiwall:
Cuddia ei glwyf, â'th fŷs yn ebrwydd,
Nâd (os gelli) weld ei wradwydd.
Na chyhoedda fai neb weithian,
I wradwyddo 'r gwann a thruan:
Ac na feddwl ymdderchafu,
Pan bo arall gwedi ffaelu.
Ond rhyfedda di yn ddyſal,
Y daioni ſy 'n dy gynnal;

Pan

Pan bo arall yn cael cwympe,
Bid ei gwymp ith iſtwng dithe.
Yr un ffynnon ſydd ym-mhob dyn,
* *Cyndyn.* *Yr un galon front* * *anhydyn* :
Ti allaſſit fod fal ynte,
Neu ti elli cyn mawr ddyddie.
† *Gofalus* Bydd am hynny 'n † garccys weithian ;
Edrych at dy draed dy hunan :
Rhwn y ſydd yn ſefyll etto,
1 *Cor.* 10. 12. Gochled ef rhag iddo ſyrthio.

Am newid barn am eraill.

BYth na newid dŷb am ddynion,
Ac na farna hwynt yn greulon,
* *Iddynt.* Am * ynt newid attat tithe,
Yn eu cariad a'u ſerchiade.
Ond yſtyria di yn gywrain,
Beth ſydd ynddynt hwy eu hunain ;
Ac nid beth ynt tuag attad,
O ran un math oymddygiad.
F'alle eu bod nhwy 'run yn waſtod,
I ddaioni yn dra pharod :
Gall fod ynnot ti 'r achoſion,
O newidiad eu ſerchiadon.
Ti yſgatſydd wyt yn haeddu
Mawr gaſineb am ddrygioni :
* *Ddiau.* *Ac nid rhyfedd ywyn* * *ddios,*
† *Gweithrediad.* *Os try'r* † *effaith gyda'r achos.*

Am foſtio am bechod.

AM dy bechod byth na foſtia,
‖ *Cwilydd* Am dy ‖ warth na orfoledda :
Gorchudd dros dy noethni bwrw,
Rhag drwg enw byth ymgadw.
† *Nid rhaid.* † *Traid i eraill weld yn gyfan,*
'Rhyn mae Duw 'n ei weld a'th hunan.

Byth

Byth na ddadle tros dy bechod
Digwilydd-dra yw hynny 'n waſtod.
Edifara pan bych feius,
Wyneb-liwia di yn ddilys:
Bydd fwy parod i gyffeſſu
Dy fai, nag y bych i † 'ſguſſu. † *eſguſu.*
Dros y drwg na 'mgeccra un-amſer;
Gwellha 'th hunan yn * *ddi-bryder:* * *Diofn.*
Synwyr ydyw adde 'th bechod, *Dihar.*
Ar bob dydd o flaen y Drindod. 28.13.

Y mae 'r gân ſy 'n canlyn, yn dyfod allan yn agos gan mwyaf, fal y daeth hi, i 'n mwylo i; ond mi adewais lawer o bethau ynthi, heb eu rhoddi ir printiwr; am fod eiſie arian i fynd ym-mhellach, ac am ryw ryſymmau eraill. Mae *llawer o 'r geiriau ynthi, yn anghydnabyddus, nid yn unic yng* Gwynedd, *ond hefyd yn* Neheubarth; *ac oblegit bod y vers o 'r fath hŷd, nid oedd lle i hagoryd hwynt yn ymyl y ddalen.*

Ymddiddan rhwng hên wr dall a 'r Angeu.

GYnt 'roedd rhyw henafgwr, heb weld na lliw na llûn,
Yn eiſte 'n ymyl llwybyr, gan ddwedyd wrtho ei hun
Bum ifangc gynt a gwrol, yn awr gwae finne 'n brûdd,
Mi aethym yn fethedig, heb weld mo ole 'r dydd.
Cawn barch pan oeddwn ifangc, yn byw mewn rhyfyg fflawns,
Yn trîn mawr olud bydol, yn dilyn ofer ſhawns:
Yn awr pob rhyw oferddyn, ſy 'moccian i o hŷd,
Och! na ddawe 'r Ange, i fynd a mi o 'r bŷd.

Angeu.

Ar hyn fe ddwedei 'r Ange, ha! beth yw 'r matter ŵr?
Pam 'r ydych wrth eich hunan, yn cadw ŷ fâth ſtwr?

Dall.

Pa ſtwr wi yn ei gadw? gwr tywyll hên wyfi,
Syr ewch ich ffordd attolwg, 'dwi 'n ynghan wrth ychwi.

Angeu.

Nid âf oddiymma dippyn, a dweid y gwîr yn llynn,
I gwnnu 'm rhent y daethym, yn awr ir parthe hyn:
Pan clywais i'ch lleferydd, myfi 'ch nabŷm chwi ſyr,
Rych chwithe yn ſy nyled, rhaid talu im ar fyrr.

Dall.

Syr 'rwi 'n gwadu'ch dyled, ar goedd y byd yn awr.

Angeu.

Syr 'dych nès er gwadu, mi wna i chwi dalu i lawr.

Dall.

Syr 'dwi'n nabod m'honoch, a dwedyd i chwi 'r gwîr.

Angeu.

Syr mi wna 'chwi 'm nabod, a hynny cyn boi hîr.

Dall.

Arefwch ſyr os gellwch, gwell pwyll nag Aur eriôd,
Ac nid oes traws yn un-man, heb drawſach iddo 'n bòd:
Syr dwedwch im attolwg, pwy'n ydych chwi'n ddi-blê,
Ac o ba wlâd y daethoch, a pheth yw 'ch ſwydd yn nhre?

Angeu.

Mi ddwedaitti wirionedd, yſtyria 'r broffes hon;
Myfi 'r trafaelwr mwya, fu 'rioed yn cerdded tonn:
Er hyn, nid crwydryn ydwyf, heb le i eiſte i lawr,
Mae f'arglwyddiaethe i'n eſtyn, dros wyneb daiar glawr.
Ti ddwedaiſt nad oes traws, heb ei drawſach mewn rhyw le;
Ni welais neb cyn drawſed, nas gwnawn i 'n ddife ag e:
Mi fûm yn rhodio 'r hên-ſyd, ymmyſc hên Adda ai blant,
Mi gwympwn yr hên Deide, pan mynnwn wrth fy chwant.

Di glywaiſt am *Methuſlah*, bu fyw hyd agos mîl,
A Chewri y pryd hynny, oedd fawr eu grym ai ſcîl;
Ni 'mdrechais â neb etto, na thrown e'n iſſa 'n frau,
Cyn a chwedi 'r diliw, myfi yw'r cwngcwerwr clau.
Mi droes ddinaſoedd cadarn, fu gynt yn hoyw 'n falch,
Fel Sodom *a* Gomorra, *i fod fel crug o galch:*
Mi fum ynghwrt hên Pharoh, *lle 'roedd y rhwyſc a'r rhôch,*
Mi dàygais bywyd hwnnw, yn eigion y môr côch.

Gwâs

Gwâs gwŷch o ŵr oedd *Sampſon*, mi tafles ynte i lawr :
Mi dorrais aſcwrn talcen yr hèn *Goliah* mawr :
Ac ynte 'r llangc *Abſalon*, er tecced oedd ei ben,
Mi aeth a hoedel hwnnw, mewn gâllt o goed wrth bren.
Salmon fawr ei gyfoeth, gwr doetha ar bòb llwyth,
Pan cydiais yn ei goryn, ni thale'i ſynwyr bwyth.
Holophernes greulon, 'rhwn oedd ai fryd ar drais,
Mi dorrais ei gorn pori, ni chafas wneuthur llais.
Alexander nerthol gwngcwerwys llawer gwlad,
Gan droi penaethiaid cadarn, ſel ſofol dan ei *drâd*,
Fe dybiodd yn ei galon, ei fod e'n Dduw ei hun,
Ond gwnaethum iddo wybod, nad oedd yntau ond dŷn.
Ni ofnas i nac Emprwr, na phennaeth fu ar ddâr,
Nac un creadur arall, bydded gwyllt na gwâr.
Mi â 'r flwyddyn neſſa i Rufein, clyw hyn fâb,
A byddaf yno 'n gynnar, yn ſiglo llaw â'r pâb :
Er ei holl weddie lladin, ai groeſau ar bob pren,
Mi trawaf nes bo 'n ſyrthio, ir ddaiar dros ei ben.
Ai ffeiriaid dû corynfol, cornelog gappe brain,
(Ni bu er amſer *Adda*, 'r fath ſothach ac yw rhain,
Mae ganthynt ddwr a fferen, a gweddi ar bob ſant)
Ond mi ddiſodla rheini, ar fyrder bob yn gant.
A thymma beth yw f'enw, myfi yw'r Angeu *ſyth,*
Am neges yw dwad ymma, i geiſio 'th anal chwyth.

Dall.

Os rhoddaiſt di 'r holl gedyrn, dan dy fyllt yn ffeſt,
Minne ro itti gyngor, cadw 'r gair y geſt.
Eſguſa fi, di elli, a gwybydd yn ddiwall,
Ni chei di ond y cwilydd, o gwympo hèn ddyn dall.

Angeu.

Rwi 'n gwrando ar dy eirie, ond dymma 'r peth ſy'n bod,
Ni fedrais gymryd cwilydd, am un rhyw beth eriod :
'Dwi 'n priſſio am yr henaint, neu 'r iengctid têg ei grân ;
Na wna ddim clecc ymhellach, ond tyred yn dy flân.
Dall. O pam na chawſwn rybydd, ychydig cyn dy ddod !
Ni buoſ mor amharod, ac wyfi 'n awr eriod.

Angeu.

Oni chollaiſt di dy lygaid, 'roedd hyn yn rybydd gwir,
Pan bytho 'r Haul yn machlyd, ni phara 'r dydd yn hir:
Ac os amharod ydwyt, beth yw hynny im-fi,
Mae'r beion hynny 'n gorwedd, yr-wan arnat ti.
Yſtyria hyn ymhellach, ni 'm-rwymes i eriod,
I roddi dim rhybyddion, nes delwn at y nôd:
Mae gennif hyn o ddewis, ar fy llaw fy hun,
Er im rybyddio llawer, 'rwi 'n ſyrthio ar ambell un,
Fel gwilliad ar gywir-ddyn, heb ynganyd fawr, (lawr.
Ond rhoi mûd ergyd marwol, nes bo 'n hwy 'n cwympo i
Pan oedd plant Job yn gwledda, yn llawen iawn ynghyd,
Mi delies hwy bob coppa, heb rybydd yn y byd.
Mi gwympes wyr penuchel, pan oeddent hoenus iach,
Mi dages pâb corynfalch, ag un gwybedyn bach.
Mewn un ffordd yn geni, mae pawb ir ddaiar faith,
Mewn mil o ffyrdd yn trengi, di glyweſt lawer gwaith.

Dall.

Mae 'n anodd cadw rhagot, yn awr mi welaf pun,
Waith llawer ffordd ſydd gennit, i ddwgid bywyd dyn:
Anhweithach genni farw, a mynd ir ddaiar ddû,
Heb gael meddiannu rhagor, o 'r byd yn awr y ſy.
Achiles *fawr a ddwedodd, gwell gantho fod yn wâs,*
I un o'r dynion gwaela, ar wyneb daiar lâs,
Na phe cae fod yn Frenin, yn y byd y ddaw,
A gorfod arno roddi, ir Angeu drôd a llaw.
Rwyf inne o 'r un feddwl, tolygaf ar hyn o bryd,
Gàd immi fynd imguddio, lle gallwyf yn y byd.

Angeu.

Ha! eiſte lle i 'mguddio, yn awr ſydd arnat ti,
Nid oes na thwr na chaſtell, a'th gadw rhagofi;
Nid oes un lloches dywyll, na fedraf yno 'th gwrdd;
Mae ynnot ti gleſydon, ith ddwyn o'r byd i ffwrdd.

Dall.

Os does y fath glefydon, yn fyng horph yn llâwn,
Gobeithio ca'i f'helpu, gan Ddoctor cynnil iawn.

Angeu.

Angeu.

Does Doctor ar y ddaiar, a all dy gadw 'n fyw,
Pan y delwyf attad, i roi ti farwol friw.
'Dwi 'n priſſio ambus, na bhiſic, nâ 'r plaſter gore fo,
Mynnu wnai fy eiddo, ble by ma'r bydy bo.

Di glyweſt goffa *Galen*, gedidog oedd ei ben,
Cwympo a wnaeth fel dalen, yn ſyrthio 'ddiar y pren.
Pob meddyg a phyſygwr, er maint ei ddyſc y ſo,
Y ddont im fi 'n garcharwyr, pan delo byth ei tro.

Ond pam y gelwaiſt gynne, i ddwyn dy oes o'r byd?
A chilio wnaet pes gellit, mi wela 'r hyno bryd.

Dall.

Pan daethoſt gynne attaf, dymma'r gwir yn iawn,
Trywanu 'roedd trallodion, trwy meddwl i yn llawn:
Rwi fi fel dyn ar dempeſt, fae 'n ceiſio cuddio'i ben,
A phân del tawel dirion, mynd dan yr wybyr wen.

Pan delo cyſtydd arnaf, dyma 'r 'cownt wi 'n roi,
Mi fydda 'n chwennych 'madel, a hyn o fyd yn gloi:
A phan caffo i lonyddwch, a llwyddiant ym-hob lliw,
Mi fyddaf yn chwennychu, cael amſer mwy i fyw.

Angeu.

Rwyt yn chwennych oedi, mi welaf hynny byth,
Mae f'awr i bron a dyfod, i roi it ergyd ſyth.

Dall.

O! dal dy law rhag taro, mae immi weiniaid bach,
Am gwraig ſydd yn ochneidio, o herwydd nad wyf iach.

Angeu.

Na ſonia am drueni, nid oes ynno i yn bod,
Yn meſſur o drugaredd, at rhyw beth eriod:
Nis gwn beth yw toſturi, dyma wir di-ſeth,
Fe gaewyd fy' myſgaroedd, rhag y cyfryw beth.

Rwi 'n croppio blode hardd-deg, cyn caffont dorri màs,
Rwi 'n tynnu 'r ffrwyth pereiddia, pan bythont ond yn làs,
Rwi 'n cwympo iengctyd campus, heb edrych ar ei grân,
A merched ffein ſidanog, i gymiſc llithrod mân.

Rwi

Rwi 'n *dwgid plant ſerchog-lan, heb roddi rheſſwn pam,*
Pan fythont yn ei trwmgwſc, rhwng anwyl freichieu mam:
Dwi 'n priſſio gweld ymddifaid, pan bont yn pliccio 'i gwallt,
Na gweled gwragedd gweddwon, yn wylo 'r dwr yn hallt.
Ni ſpariaf ddyn daiarol, pa bydde 'n aur ei gôb,
Brenin dychryniade, yw 'm henw 'n llyſyr Jôb.
Mynegais itti weithian, mor anorchfygol wyf,
Mor wael yw dyn daiarol, er maint ei rwyſc ai rwyf.
Einioes dyn ſydd gwtta, a llawn o boen a chûr,
Treulio mae hi 'n ebrwydd, fel diwrnod gweithiwr hir;
Heddyw yn ymwychu, yn ddigon hardd ei wedd,
Yfory 'n ôl oferedd, yn gorwedd yn y bedd.
Fe ddywedodd *Job* brofedig, hyn ymma yn ei ddydd,
Fod amſêr dyn yn rhedeg, megis gwennol gwydd,
Fel breuddwyd gwedi paſſio, mwg, a niwl, a tharth,
Ne chweddel gynt y ddweſpwyd, ne grîn edafedd carth.
Fe ddwedodd Dafydd *frenin, gwr y wydde pûn,*
Gwagedd ar y gore, ydyw 'r gore o ddyn,
Megis blode 'r bore, y fae yn beraidd iawn,
Y dorrid yn dra ebrwydd, y wiwen cyn pryd-nawn.

Dall.

Och! n'allaf ond rhyfeddu, wrth weld mor wael yw dyn,
Pam na ryfedda miliodd, hynny gyda 'm hun?
Cans gwir yw 'r peth y ddwedaiſt, yn awr oth enau mâs,
Does dim trwy 'r byd yn ſerten, i ddyn ond angeu glâs.
A *minne, gwedi dadle, o honot encyd fawr,*
Sy 'n gorfod goſtwng hwyle, a phlygu itti nawr:
Ond gâd imofyn cweſtiwn, (dymma wir difêth,
Cyn immi golli 'm llygaid, mi fedrwn ddarllen peth)
Mi welais gennif lyfyr, ac oedd yn dweid yn ffraeth,
Fynd dau i deyrnas nefoedd, heb brofi Angeu caeth,
Sef *Enoch* ac *Elias*, a chan mae gwir yw hyn,
Dywaid i mi o Angeu, pa fodd bu 'r peth yn llyn?

Angeu.

Mewn 'chydig eirie 'rwan, cei atteb genni 'n rhôdd,
Ni ches Awdurdod arnynt, wel dyna itti 'r môdd.

Dall.

Dall.

Awdurd od hâb y ddwedaiſt! oes rhyw un uwch dy law?
Ond tydi ſy'n rheoli, ym-hob man, yma a thraw.

Angeu.

Nage rwi dan Awdurdod, *'orchmynnir immi wna'i,*
Ac *megis dwedodd* Balam, *ni wnai na mwy, na llai.*

Dall.

A fyddi di mor fwyned, a maneg immi hyn,
Ble tarddwys dy ddechreuad, a pha beth yw dy rym?

Angeu.

Brenin y brenhinoedd, creawdwr nef a llawr,
Gwneuthurwr pob creadur, trwy'r greadigaeth fawr;
A luniwys ddyn yn berffaith, fe gwiſgwys ef â chlôd,
Ym mharadwys beraidd, cyn im-ſi gaffel bôd.
Fe roddwys iddo gyfraith, oedd berffaith yn ei 'le,
A gallu i gadw'r gyfraith, y roddwyd iddo fe:
A gwabar oi chyflawni, oedd bywyd, heb ddim llai,
Ond os troſſeddei 'r gyfraith, cae farw yn ddiai. (dyn:
Fe ddoeth y ſarph gyfrwyſ-gall, hi roddwys gwymp ir
Ac ar y cwymp fe gollodd, y gallu oedd ynddo ei hun:
Fa'th dan awdurdod Angeu, er cyfuwch oedd ei fri:
Wel dyna'r awr a'r amſer, yn wir yng-aned i.
'Y Grôth am bwrodd ollan, oedd y pechod taer,
'A thra parhaffo pechod, mi fyddaf ar y ddaer:
'Pechod ydyw 'ngholyn, a phechod ydyw 'ngrym,
'Oddiar bechod Adda, y daeth dechreuad im.
Mae gennif i gommiſſiwn, ac ynddo lawer pwyth,
Os gorfydd im ei ddarllen, fe wna'n dy galon fwyth.

Dall.

'Ond agor dy gommiſſiwn, darllen hwn imfi,
'Gâd immi gaffel clywed, yn awr dy waetha di.

Angeu.

Mae gennif i gommiſſiwn i wneuthur yſgar maith,
Rhyngot ti â'r cwbwl, ſy ar wyneb daiar faith;
Dy wraig ânwylwych gyſſon, ath blant, a'th geraint cû,
Ath hoffder, ath bleſſere, a phob rhyw beth y ſy.

Dy Aur, ath berls ath dlyſſe, tae gennit fwy na mwy,
Y fyddan yn ei trafod, ni wyddoſt ti gan bwy,
Ath diroedd mawr ath blaſſodd, lle 'roedd dy galon gynt,
Fe orfyddditti gadel, heb glywed mwy moi hynt.

Yn lle dy drwſſiad gwerthfawr, ſe roir o gylch ith ben,
Hân o lîn ne wlanen, mewn cophor cûl o bren;
Ni chei di'n lle 'r holl olud y geſgleſt trwy fawr boen,
Ond hynny ar y gorc, o fodd i guddio'th groen.

Rhaid itti ado 'r cyfan, oth gyfoeth ar dy ôl,
Heb wybod pwy' meddianna, pa un ne call ne ffôl:
Yn lle dy ſtafell ddiſglair, fe'th roer mewn bedd yng-hûdd,
Yn lle dy holl ddainteithion, cei lond dy eneu o bridd.

Ni chei di 'n lle 'th gyfeillion, fu fwynion gynt ar don,
Ond amwyd a phryſedach, ym-herfedd daiar gron.
Mae gennif fi awdurdod, i wneuthur â ti 'n llyn,
Yw'th galon di 'n gwanegu dim wrth glywed hyn.

Dall.

Yn wir mae 'n rhaid im addef, fod ambell waneg ſhom,
Yn trywanu trwyddof, mae 'nghalon fach yn drom,
Wrth feddwl fel y gorfydd, adel yma'n llwyr,
Y pethau oll y geſglais, yn fore ac yn hwyr,
Heb gaffael mwy ddychwelyd, i ymgais o fym tŷ,
Na gobaith am gael gweled, y byd yn awr y ſy.

Angeu.

Clyw, bum bron anghoſio, ddwedyd un peth mawr,
Ond mae fo gwedi llithro, im medawl i yn awr:
Pan delo 'r pryd i gnoccio, yn gadarn wrth dy borth,
Ac i wneuthur gwahan, rhwng dy enaid di ath gorph:

Fel y caffoi di 'r pryd hynny, mi'th gymraf yn ddiau,
Ac yn ól imfi dy gymryd, ni chei di le i wellhau:
Y prîdd ir pridd a ddiſgyn, o hono 'r yſpryd aiff,
Ac megis y gadawoi ti, felly Barn dy gaiff.

Dall.

Gwirionedd mawr yw hynny, am hyn mi 'mrodda 'n faith,
I geiſio bod yn raſol, cyn gorffo im fynd ir daith,
Fel pan del fawr i farw, am corph i fynd ir bedd,
Am gwaith i gwedi orphen, bo 'm henaid fod mewn hedd.

Ond

Ond yr wyſi 'n gweled, ſod rhai (o ange clyw)
Yn rhagori ar ei gilydd, yn hyn o fyd wrth fyw:
A dymma beth yw 'r cweſtiwn, o dyro atteb plain!
A oes dim rhagoriaeth, wrth farw rhwng y rhain?

Angeu.

Nid oes dim rhagoriaeth, rhwng un rhyw fath o ddyn,
O ran dim ſy'n gorwedd, ar fy llaw fy hun:
Pan caffo i arch i daro, oddiwrth y Brenin mawr,
Heb edrych mewn un llygad, mi drawaf hed y llawr.

Mae 'n hawdd i ti dy hunan, welêd yn ddibâll,
Fel mae 'r ffôl yn marw, felly y mae 'r câll:
A'r hwn ym-hob cyndynrwydd, y fu yma 'n byw,
Sy'n marw megis hwnnw, ac a ofnodd Dduw.

Ond diſclair ddydd ſ'ir cyfiawn, yn y deyrnas draw,
Rhagoriaeth mawr ymddengys, yn y byd y ddaw:
Mae 'n anodd i neb farnu, er mynd dan boen a thraul,
Rhwng cariad a chaſineb, wrth ddim ſy dan yr haul.

At rai yr wyf yn dyfod, er lleſſiant ac er da,
Ac 'r wyſi 'n dwad at eraill, er triſtwch ac er gwa:
Ond pwy ſy'n caffel triſtwch, a phwy ſy'n caffel bri,
Dirgelwch mawr yw hynny, na pherthyn ddim im fi.

Rhagluniaeth Duw ſy'n ddwfn, yn dramawr, ac yn faith,
Ond ſerten yw gobrwyir, pob rhai yn ol ei gwaith.

Yſtyria di yr union, a'r perffaith ddyn ei ddawn, (llawn:
Mae i ddiwedd mewn tangnefydd, a phob llawenydd
A'r hwn na wnaeth gydwybod, oi ffyrdd tra fu yndo chwyth
Diwedd hwnnw yw triſtwch, a phoen na dderfydd byth.

Dall.

Ti ddywedaiſt wrthyf gynne, yn awr rwi 'n coſio 'n dda,
It gaffel dy ddechreuad, oddiwrth gwŷmp hên E-fa:
Minne glywais ddywedyd, gan wr a haeddau glôd,
Beth bynna gas ddechreuad, ſod diwedd iddo 'n bod.

Angeu.

Myfi yn wir ſydd gadarn, yn cwympo pob rhyw râdd,
Ond Angeu ddaw im-minne, im gorfod ac im lladd.
Pan trawer di gan Angeu, a marw 'n ddiogel, clyw,
Mae it tydi beth gobaith, am gael yr ail-waith fyw.

'Ond pan y gorſſo im farw, 'dwyf nes er celu'n hwy'
'Nid oes im-fi ddim gobaith, am gaffel bywyd mwy.
Goſteg ddyn, bydd araf, os buof gynne'n draws,
Cei weithian gennif newydd, i wella ar dy naws;
A hynny yn dra diſtaw, neu 'n ddirgel yn dy gluſt,
Y baro ith galon gyffro, er ei bod gynne 'n driſt.
'Fe helodd y goruchaf, wrth weld trueni dyn,
'O'r nefoedd wen orauraid, ei anwyl fab ei hun:
'I fod fel dyn daiarol, fe gwiſcwys ef à chnawd,
'A hwn dros ddyn cwympedig, yn aberth pur y gawd.
Dan ddwylo pechaduriaid, bu Criſt yn dioddef cûr,
'R ail berſon yn y Drindod, heb bechod, ond yn bûr:
Roedd hwn o ran ei dduwdod, yn ogyfuwch â Duw,
Yr un mewn braint a fylwedd, er tragwyddoldeb yw.
'Ac hefyd yr oedd iddo, fel yr oedd e 'n ddyn:
'Gnawd ac yſpryd megis, y mae i tithe 'th hun.
Ond o ran ei genhedliad, 'roedd 'n bur yn bod,
Ni chaed y mymryn lleia, o bechod yndo 'r-iod:
Mi fynnwn gwympo'r Ieſu, wrth ei weld e'n ddyn,
Ac wrth roi iddo 'r codwm, Bum bron a lladd fy hun.
'O herwydd wedi roddi, i orwedd dan fy nôd,
'Mor ddiogel yn fy 'ngharchar, ac y byſſe dyn er-iod:
'Torri wnaeth fy rhwyme, o anfodd i fy nhrwyn,
'A dyfod fel cwnewerwr, yn rhydd i ben y twyn.
Nid oedd na nerth na cholyn, genif ar un pryd,
Ond y ges trwy bechod, a Chriſt a ddaeth ir byd,
I ddiddymu pechod, trwy Angeu gwael di-fri;
Ond trwy ddiddymmu 'r pechod, fo 'm dirymmwys i.
'Pan 'r oedd Criſt yn dioddef, marwolaeth chwerw loes,
Mi orfoleddais arno, yn uchel ar y groes.
'A phan yr own yn bridio, nad oedd neb o'm bath,
'Ni wybûm ar chweddel, nes down gantho 'n gaeth.
Myfi a wneuthum fagal, mi ſyrthias iddi 'm hun,
Nid wyf yn awr ond egwan, fel rhyw fethedig ddyn.
Dyma 'r modd ymdrewais, och gwae finne 'n driſt!
Immi yn fy nigcter, gwympo 'r Arglwydd Criſt.

Ma

Ma gwedi'm trîn yn irad, ma gwedi ſigo 'm ſhol,
Fo dorrodd fy'm cilddanneddd, f'ath a'r bêl ir-gol:
Fe gropiwyd fy adenydd, fu lydain gynt a mawr,
Ac fe fyrhawd fy ſpage, dymma'r modd 'rwi'n awr.

Er bod im nerth i ddala, niferodd yma a thraw,
'Does gennif nerth i gadw, y ddaliwyf yn fy llaw:
Er im gympo ei weiſion, yn agos ac ym-mhell
Maent yn awr mewn gobaith, i gaffael bywyd gwell.

Erfynant ar ei meiſtyr, am ddwad i farnu 'r byd,
Ac fe ddaw trangc i minne, pan delo hynny o bryd:
Rwi gwedi colli 'm colyn, a'm grym, a'm henw'm hun,
Ni byſſe waeth im golli, fy mywyd dan yr un.

Angeu oedd fy enw, ym-hob yſcrifen gynt,
Rhyw gwſc yn awr im gelwir, a thyma beth yw'm hynt:
Wrth rwymo Criſt di weli, daeth immi ddigwydd trwm,
Criſt ſy gwedi ymddattod, a minne dan y clwm.

Dall.

Godidog yw'th newyddion, er triſted ynt i ti,
Mae 'r newydd yma 'n peri, cyſſuron mawr im fi:
Ond etto pan boi 'n meddwl, mae pechod yw dy rym,
Mi fyddaf yn petruſſo, dy fod er niwed im.

Cans er pan daethoi wybod, gwahan mewn dim eriod,
Yr ydwyf i yn gwybod, fod pechod yno i'n bôd:
O na bawn yn gwybod! ac o na ddwedit pun!
Yw'th golyn di mewn pwer, ne beidio arnai 'm hun.

Angeu.

Ni chefais arch i atteb, fath gweſtwn ac yw hwn,
Ond llawer peth y welais, y ddichon bod, mi gwn:
Mi 'th glywa di yn cwyno, dy fod di dan dy fai,
Pechadur wyt ti meddi, felly mae pob rhai.

Ond dymma beth yw'r matter, a ydwyt ti yn brudd,
Yn g'laru am dy bechod, yn ddyſal nos a dydd?
A ydwyt ti'n dymuno, mewn llys, a llan a phorth,
Yngwbwl gael dy wared, oddiwrth y marwol gorph?

A ydwyt ti 'n bwriadu, trech ar y ddaiar las,
Ar geiſio gwneuthur d'ore, i fynd o ras i ras?
A ydwyt ti yn ceiſio, cyrraedd at y nod,
O alwadigaeth Dduw, yng-Hriſt, er cyn dy fod?

A ydwyt ti yn gwbwl, yn rhwymo 'th hun yn gaeth,
I fyw 'nol yr efengyl, bydded gwell neu gwaeth.

A wyt ti 'nghriſt yn credu, dymma 'r matter yw?
Os wyt, er itti farw, di gai yr ailwaith fyw.
Os fel hyn yw'th gyflwr, ſaf weithian ar dy drad,
'Dwifi ond llwybyr tomlyd, ſy'th ddwyn i dy dy Dad:
Cai yno auraidd goron, ath wiſco a braint a bri,
A'mddangos fel cwncwerwr, pan darflo am danafi.
Ond y ſawl y fo'n mynd waeth waeth, mewn drwg hyd at y nod,
Mae 'ngholyn mor wenwynol, i rheini ac bu eriod.
Wel dymma itti node, ymbola 'th hun yn llwyr,
Ni wn i beth yw'th galon, Duw a thithe wyr.

Dall.

Wrth y node yma, gobeithio 'r wyf yn brudd,
Fod yn fyng-halon inne, rhyw feſſur bach o ffydd:
Pan fytho i'n ymholi, wrth y pethe enwaiſt ti,
Mae rhyw ddiddanwch ddirgel, yn treiglo'i mynwes i.
'Nawr mi ges gnabyddiaeth, pan darffo 'r bywyd hyn,
Fod hyd ſy well yn caulyn, yn nheyrnas Ieſu gwyn.
A gas neb trwy 'r ddaiar, y fath drugaredd ſy'm?
Sef gorfod ar farwolaeth, bregethu bywyd im.
Er hyn, o iengſtid mawrion, ſy'n byw 'n ddiofal iawn!
Mi roddaf i chwi gyngor, er tecced ydyw 'ch dawn:
Ymgweiriwch bawb i farw, rhag na chaffoch chwi,
Ymddiddan cyd ar Angeu, ac y cefais i.
Dymuno 'rwyfi weithian, ei Dduw fy nyſcu o hyd,
I garu mab ei gariad, tra fytho i byw 'n y byd.
Brenin y Brenhinoedd, rhyfeddol oedd dy ras,
Rhoi 'th anwyl fab im gwared, oddiwrth y pechod cas:
A thrwy 'm gwared oddiwrth bechod, cael hefyd fynd yn rhydd,
Oddiwrth golyn Angeu, mewn pechod oedd ynghudd.
Yn awr y rwi 'n gobeithio, im gael tifeirwch llwyr,
A phardwn am bob pechod, y gwnaethum fore a hwyr.
Greſſo i tithe 'r Angeu, yn awr ar gyfrif Criſt;
Rho'r ergyd pan y mynych, ni byddaf mwyach triſt:
Mi edrychaf yn dy wyneb, 'dwi 'n ofni marw clyw,
Mae mywyd wedi guddio, gyda Chriſt yn Nuw.
Ar fyr mi gaf fy ſymmyd, lle na allo mwy,
Y pechod brwnt na'r Angeu, fy mlino byth ynhwy.
Caf yno fywyd newydd, ymmiſc ſeintie ſtor,
Caf ganu *Haleluia*, o fewn Angylaidd gor.
Pan y mynych tyred, O Arge tra yn-noi chwyth,
Nes delo 'nghyfnewidiad, myfi ddiſgwyliaf byth:
Gobeithio im gael yn gwared, oddiwrth dragwyddol wa,
Tra foi 'n y byd preſennol, dymma 'r pethy wna,
Mi 'm biliaf am Creawdwr, am gael fy nyſcu, ſef,
I rodio'r llwybyr union, ſy 'n mynd i deyrnas nef,
Gan ymgweirio i farw, tra fo'i ymma'n byw.
Rhag Angeu annaturiol, Cadw ſi o Dduw.

Achwyniad

Achwyniad am rai drwg arferion pobl yng Hymru, a roddwyd allan gan mwyaf, gan wr ifangc o blwyf Abergwily, yn ſir Gaerfyrddyn.

PAwb ſy'n nabod y gwirionedd,
Clywch fi'n traethu am fawr wagedd,
Sydd yn blino 'r Arglwydd tirion:
F'achwyn ſydd am * ddwli dynion.
Y *mae achos in-ni* † *ſynnu,*
Ac achlyſur i ryfeddu,
Fod Dyn y rhows Duw iddo enaid,
Yn ſaith ffolach nâ 'r nifeiliaid.
Yr anni fail gwyllt a ſyrthio
Yn y ffoes, a wachel honno;
Mwyach nid aiff yno i bori,
Y têg-laſwellt, rhag ei ſoddi.
Pob aderyn, marcwch heſyd,
Pan gwél fagal, cais ei gwechlyd;
Ac ni ddaw ſe ddim yn agos,
Rhag ir fagal ddwyn ei einios.
Nid yw llawer dyn yn 'ſtyried,
Fôd pechodau 'n llâdd yr enaid,
Ni 'madawant â'i drygioni,
Er bydd hynny 'n ſiwr i damnu.
Onid ydyw dyn yn anffel,
Pan y rotho ei hun ir cythrel?
Ble mae gelyn waeth nâ hwnnw,
Y ddlyt fwyaf rhagddo 'mgadw.
Y mae llawer iawn a ddywaid,
Yn dra mynych, *Diawl y ſ'enaid:*
Ond ynfydrwydd ydyw offrwm,
Ir Diawl atgas fwy nâ'r byd hwn?
Mae rhai 'n galw ar y cythrel,
Fod yn Dŷſt * *ynt ar bob chweddel,*
Llawer un a ddwed yn wyſgi,
Ac yn gâs, Diawl oni bu hyrny.

* *Ynſyd-rwydd.*
† *Frawychu.*

Eſay 1.3.

* *Iddynt.*

Dymma

Dymma gredu 'r Diawl yn ffyddlon,
Dymma hefyd ffoledd creulon,
Ceisio Tàd a phen anwiredd,
Yn lle Tŷſt am y gwirioned.
Llawer ſydd yn arfer tyngu,
* *Megis.* *Wrth y ſaint,* * *meis,* laco *a* Dewî :
Felly gwneir hwy 'n rai ſy'n gwybod,
Ein calonnau meis y Drindod.
Yn y ffeiriau, yn y farchnad,
clywir llwon mawr yn waſtad,
Weithie wrth *Dduw*, a weithie wrth *Ieſu*,
Er gwardd a bygwth ofer dyngu.
Arfer rhai wrth godi 'r bore,
Yw troi bŷs o gylch eu trwyne,
I gael croes Duw, idd eu cadw,
Rhag pob drwg y dwthwn hwnnw.
Nid yw Duw yn erchi gwneuthur,
Un rhyw groes, yn yr yſcrythur:
Nid yw'n addaw, y caiff hynny,
Wared un-dyn rhag drygioni.
Pan y clywo rhai 'r bioden,
* *Allan.* *Ar y llwyn i* * *maes yn ſcrechen,*
Hwy ymſwynant yn dra ebrwydd,
Rhag cael colled, neu ryw dramcwydd
† *Ymſyd-rwydd.* Dymma † ddwli Deilliaid angall,
Coelio 'r Deryn gwyllt di-ddeall,
Rhwn ni wyr beth 'ddaw i un-dyn :
Dihar. Ond a ofnant a ddaw iddyn.
10.24. *Mae rhai 'n myned pob nôs glammai,*
At ryw ſwynwr, *doeth ei chweddlau*;
I gael ſwyn iw Da, ai heiddo,
Rhag pob haint, a rhag eu rheibio.
Dyna ffoledd melltigedig,
Ceiſio help y cythrel ffyrnig ;
Ac nid ceiſio help Duw graſol,
Sy'n gofalu dros ei bobol.

Mae

Mae rhai hefyd a arferan,
Ar [illegible] *lamme fyned allan,*
I [illegible] † [illegible]r gerdyn, * *ŷd.*
R*hag ir llafyr fethu ganthyn,*
O'r fath ffoledd ydyw hwnnw!
Rhoddi [illegible]
A[illegible] yng-Hrist Iesu,
Sydd yn peri 'r llafyr dyfu.
R*hai ni soniant am y marw,*
Heb ddweid, nêf i enaid hwnw:
Ond ni cheisiant nef i un-dyn,
*Hyd nes pasio 'r * ferdid arnyn.* * *Farn.*
Mae gan fagad saith o dduwie,
Rheini ydyw y saith ddyddie,
Duw Sul, Duw Llun, yw dau o honyn,
A'r pump eraill sydd yn canlyn.
Dymma arfer gâs annuwiol,
Ddysgodd yr hên Ddiawl ir bobol,
Galw enw 'r sanctaidd Drindod,
Y*n gyffredin ar ddiwrnod.*
Mae'r rhan fwyaf o blant dynion,
Yn *halogi 'r Saboth gysson,*
Tybiant * ynt roi i Dduw orchmynwys * *Iddynt.*
Os yn unic dônt ir Eglwys.
Gwedi darfod y Gwasanaeth,
Ni bydd sôn am D*duw nai Gyfreth:*
Ond chwedleuant am eu pethau,
Am y Byd, a'u holl blesseran.
Ar Bryd-nhawn yn rhwydd hwy ddawan,
I wasnaethu 'r Filain Satan;
At ryw gamp neu ofer gwmpni,
I gael treulio 'r Dydd yn † firi. † *Llawen.*
Cadw 'r Saboth a orchmynnir,
Ei Halogiad a fwgwthir: *Num.*15.
D*aeth o'r nefoedd dôst ddiale,* 35.
Am H*alogi y Sabothe.* *Nehem.*13.
17,18.

Rhai

Rhai o weiſion Duw gorucha,
Wêl y Saboth ar y byrra:
Gwedi dreulio oreu gallon,
Gwelant yn eu gwaith ddeffygion.
Ond nid ydyw 'r drwg un amſer,
Gwedi dreulio i gyd yn ofer,
Yn gweld arnynt ddim o feie,
Ond tebygu eu bod o'r gore.
Ar y Dydd hwn maent yn diſgwyl,
I fynd at ei pechod anwyl,
Ac i fwrw ei holl hwſmanneth,
A pha waith ſy' w ddechreu eilchweth.
Hôff yw ganthynt ryw beth ofer,
* Dreulio. *I gael môdd i* * *hala 'r amſer,*
Fel pe baent bob awr yn ofni,
† Iddynt. *Rhag* † *ynt wneuthur dim daioni.*
Y mae llawer iawn yn galw,
Ar *Fair* gyda Duw i cadw,
Fel pe byddei Duw yn ffaelu,
Nes cael cymmorth Dyn i helpu.
Ammarch blin a' gwradwydd hefyd,
Ffay 43. 11 *Ir Duw mawr ſy'n cadw 'r holl-fyd,*
Yr dyw ceiſio gyda 'r Drindod,
Un Gwaredydd mewn dim trallod.
O! faint o biniwne ofer,
'Roes y Diawl ym-mhenne llawer;
Ac ni throant ddim oddiwrthynt,
Er maint a rybyddier arnynt.

Hyn wyſi 'n chwennych wneuthyr,
Pan ddodais hwn ar bapyr,
Tynnu rhai oi harfer ffôl,
I fyw yn ôl y ſcrythyr.

Diwedd.